

# Swyddfa Cymru



## Adroddiad Blynyddol 2009



# Adroddiad Blynyddol gan Swyddfa Cymru

a Gyflwynwyd i'r Senedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru  
Ar Orchymyn Ei Mawrhydi  
Mehefin 2009

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o Adroddiadau Adrannol sydd, ynghyd â'r Prif Amcangyfrifon 2009-10, dogfen Dadansoddiadau Ystadegol Gwariant Cyhoeddus 2009 a'r Amcangyfrifon Cyflenwi 2009-10: Gwybodaeth Gyllidol Atodol, yn cyflwyno cynlluniau gwariant y Llywodraeth ar gyfer 2009-10 a 2010-11.

© Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir heb ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan berchnogion yr hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: [licensing@opsi.gov.uk](mailto:licensing@opsi.gov.uk)

## Rhagair



Hwn yw'r pumed adroddiad blynyddol imi ei gyflwyno i'r Senedd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a'r ail ers imi ddychwelyd i Swyddfa Cymru ym mis Ionawr 2008.

Roedd y 12 mis sydd dan sylw yn yr Adroddiad hwn yn gyfnod rhyfeddol i Gymru mewn amryw o ffyrdd. Yn ystod y flwyddyn hon, bu achos i Gymru ddathlu nifer o fuddugoliaethau a llwyddiannau, ond hefyd cafodd y dirywiad economaidd gwaethaf mewn cof effaith ddiymwad ar unigolion, ar deuluoedd ac ar fusnesau o Fôn i Fynwy.

Arweiniodd y cyfnod eithriadol hwn at ymateb nas gwelwyd o'r blaen gan y Llywodraeth yn San Steffan, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mae Caerdydd. Er nad oedd un ateb syml sicr ar gael i ddatrys yr amgylchiadau

economaidd byd-eang, bu modd lleddfu eu heffaith ar unigolion, ar deuluoedd ac ar fusnesau yng Nghymru a'u harfogi i ymateb yn well pan fydd yr economi'n gwella.

A minnau'n Ysgrifennydd Cymru, rwyf wedi eistedd ar y Pwyllgor Economaidd Cenedlaethol, a gadeirir gan Brif Weinidog y DU, ac wedi mynychu cyfarfodydd yr Uwchgynhadledd Economaidd Cymru Gyfan yn rheolaidd gyda Phrif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn amhrisiadwy o ran dod â chynrychiolwyr o sectorau busnes, undebau, bancio ac adwerthu Cymru at ei gilydd i drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd ac i sicrhau ein bod yn deall yn union beth sydd wedi bod yn digwydd ar y pen blaen yn y dirywiad hwn.

Fel Llywodraeth, rydym wedi bod yn gwranddo ac yn gwneud popeth yn ein gallu i gynorthwyo a chefnogi busnesau bach i wynebu'r cyfnod economaidd anodd hwn. Drwy amrywiaeth o fesurau cefnogi, rwyf yn hyderus y byddwn, yn ogystal â delio â'r pryderon economaidd uniongyrchol, yn adeiladu economi fwy cadarn a chynaliadwy at y dyfodol, gan sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i elwa o'r cynnydd economaidd pan fydd yn cyrraedd.

Rhaid i ni beidio ag anghofio y bu llawer achos i ddathlu yng Nghymru hefyd yn ystod 2008.

Boed hynny ar y cae rygbi neu ar y cae pêl droed, yn y cylch paffio neu yn y gemau Olympaidd neu'r gemau Paralympaidd yn Beijing yn ystod yr haf, roedd hon yn flwyddyn aur i Gymru ym myd chwaraeon, diolch i'n chwaraewyr a'n hathletwyr. Ni wnaaf fyth anghofio ymuno â Rhodri Morgan a 2,000 o gefnogwyr brwd ym Mae Caerdydd ym mis Awst i groesawu arwyr Cymru yn y Gemau Olympaidd yn ôl o Beijing gyda'r nifer fwyaf o fedalau a welodd Cymru ers bron i 90 mlynedd.


Hefyd, bu awduron, actorion a cherddorion o Gymru yn dathlu cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol wrth i lwyddiannau Cymru gael clod ym meysydd teledu, theatr a cherddoriaeth. Roedd 2008 wir yn flwyddyn “Cŵl Cymru”.

Cafwyd aml i ben-blwydd pwysig yng Nghymru yn 2008 hefyd, gan gynnwys 60 mlynedd o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a grëwyd gan Weinidog Iechyd y Blaid Lafur ac Aelod Seneddol Blaenau Gwent, Aneurin Bevan, a dengmlwyddiant yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Yn y flwyddyn hon, a oedd hefyd yn 10<sup>fed</sup> blwyddyn datganoli, cymeradwyodd Ei Mawrhydi Orchymyn Cyntaf Cymru yn y Cyfrin Gyngor ym mis Ebrill 2008. Roedd hon yn garreg filltir hanesyddol yn y broses ddatganoli i Gymru ac o ran trosglwyddo pwerau o'r Senedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yn dangos sut yr oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau gwell ac i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl Cymru.

Yn San Steffan, roedd Aelodau Seneddol Cymru yn parhau i chwarae rôl hollbwysig ym maes craffu a gwneud penderfyniadau yng Nghymru a ledled y DU.

Drwy wynebu sialensiau economaidd Cymru gyda'i gilydd, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos mai partneriaeth ddidwyll a chydweithio i sicrhau canlyniadau ar gyfer pobl Cymru yw hanfod datganoli. Yn Swyddfa Cymru, byddwn yn parhau i chwarae rôl ganolog yn y llwyddiant hwnnw, ac yn parhau i weithio i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a sefydlogrwydd economaidd i bobl Cymru.



**Y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS**  
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

#### Diweddariad

Ar 5 Mehefin 2009, cafodd y Gwir Anrh Peter Hain AS ei ail-penodi fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

# Cynnwys

<b>Rhagair gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru</b>	<b>3</b>
<b>1. Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud</b>	<b>7</b>
1.1 Cyfrifoldebau Gweinidogol	8
1.2 Gwaith Gweinidogion Swyddfa Cymru	9
1.3 Prif Lwyddiannau 2008-09	10
1.4 Cyfrifoldebau'r Is-adrannau	14
<b>2. Cyfansoddiad a Deddfwriaeth</b>	<b>15</b>
1.1 Fframwaith Cyfansoddiadol i Gymru	16
1.2 Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol	16
1.3 Mesurau'r Cynulliad	18
1.4 Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU	18
1.5 Codi Ymwbybyddiaeth o Ddatganoli	19
<b>3. Hyrwyddo a Chefnogi Cymru</b>	<b>21</b>
<b>4. Amcanion a Chyflawni</b>	<b>31</b>
4.1 Nodau	32
4.2 Amcanion	32
4.3 Edrych yn ôl: Cyflawni yn erbyn yr Amcanion yn 2008-09	34
4.4 Cynnydd yn erbyn Targedau	41
<b>5. Trefniadaeth, Llywodraethu a Galluedd</b>	<b>43</b>
5.5 Cytundebau Lefel Gwasanaeth	45
5.6 Cyfrifoldebau Swyddfa Cymru	45
5.7 Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon	46
5.8 Llywodraeth yr Oes Wybodaeth	47
5.9 Penodiadau Cyhoeddus	47
5.10 Y Gymraeg	47
5.11 Recriwtio Staff Swyddfa Cymru	47
5.12 Niferoedd Staff	48
5.13 Polisiâu Cyfle Cyfartal Swyddfa Cymru	49
5.14 Rheoli Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa Cymru	49

6.	<b>Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru</b>	51
6.1	Cyllido Cynulliad Cenedlaethol Cymru	52
6.2	Cyfanswm y Gwariant Cyhoeddus y gellir ei bennu yng Nghymru	52
6.3	Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	52
6.4	Cyllideb y Cynulliad	53
6.5	Cyllideb 2009	53
6.6	Gwariant Swyddfa Cymru	53
6.7	Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2005-06 a 2010-11 ers Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus (PESA) 2008	53

#### **Atodiadau**

1.	Deddfau ac ynddynt ddarpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2007-08	56
2.	Deddfau arall a mesurau'r Llywodraeth yn Sesiwn 2007-08 sy'n ymwneud a Chymru	59
3.	Mesurau'r Llywodraeth ac ynddynt ddarpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn sesiwn 2008-09	60
4.	Deddfau arall a mesurau'r Llywodraeth yn Sesiwn 2008-09 sy'n ymwneud a Chymru	62
5.	Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau'r Cynulliad a basiwyd yn ystod 2008	63
6.	Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2007-08 a 2010-11 ers PESA 2008	64
7.	Terfyn Gwariant Adrannol – Cymru	65
8.	Y Grant a oedd yn Daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2007-08: y Ddarpariaeth Wreiddiol a'r Ddarpariaeth Derfynol	66
9.	Cysoni'r Grant a oedd yn Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2008-09	67
10.	Cysoni'r Grant sy'n Daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru 2009-10	68
11.	Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil	69
12.	Nodyn Esboniadol	70

# Pennod 1



Pwy ydym ni  
a beth rydym  
yn ei wneud



# Pennod 1:

## Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

### 1.1 Cyfrifoldebau Gweinidogol

---



#### Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Llun – Y Gwir Anrhydeddus Paul Murphy AS

Cyfeiriad strategol cyffredinol, Cydgysylltu â'r Cynulliad, Materion Cyfansoddiadol, Pwerau Deddf Llywodraeth Cymru (yn cynnwys etholiadau'r Cynulliad), Cyllid, Ewrop, Datblygu Economaidd, Penodiadau Cyhoeddus, yr Amgylchedd, Treftadaeth Cymru a Materion Brenhinol.

Yn ogystal â hynny, yr Ysgrifennydd Gwladol:

- yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Gynhwysiant Digidol;
- mae'n aelod o'r Cyngor Economaidd Cenedlaethol, a gadeirir gan y Prif Weinidog;
- sy'n cadeirio Pwyllgor newydd y Cabinet ar Ddiogelwch Data Personol;
- sy'n cadeirio Pwyllgor y Cabinet ar Lywodraeth Leol a'r Rhanbarthau;
- sy'n goruchwyllo'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig;
- sy'n goruchwyllo'r Cydbwyllgor Gweinidogion ar Ddatganoli.



#### Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru

Llun – Wayne David AS

Datblygu Rhanbarthol, Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Iechyd, Addysg a Hyfforddiant, Trafnidiaeth, Amaethyddiaeth, Llywodraeth yr Oes Wybodaeth, Llywodraeth Leol, Atal Troseddu, Materion Menywod a Materion Gwyrdd.

Yn ogystal â hynny, yr Is-ysgrifennydd Seneddol:

- yw'r Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am Gynhwysiant Digidol;
- mae'n aelod o Gyngor y Gweinidogion Rhanbarthol;
- ac mae'n aelod o Fwrdd Cenedlaethol Lleihau Troseddu



Llun - Yr Arglwydd Davies  
o Oldham, llefarydd  
Swyddfa Cymru yn Nhŷ'r  
Arglwyddi (chwith)

Llun - Mark Tami AS,  
Chwip y Llywodraeth  
sydd â chyfrifoldebau dros  
ASau Llafur Cymru  
(dde)

## 1.2 Gwaith Gweinidogion Swyddfa Cymru

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru'n cynrychioli buddiannau Cymru yn y Llywodraeth drwy eistedd ar 26 o bwyllgorau'r Cabinet ac ar y Cydbwyllgorau Gweinidogion. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cadeirio tri o bwyllgorau'r Cabinet, ac ef hefyd yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, yn ogystal â goruchwyllo'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a'r Cydbwyllgorau Gweinidogion.

Maent yn cydweithio'n agos â Gweinidogion y Cynulliad. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidog Cymru'n cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r Is-ysgrifennydd Seneddol yn cael trafodaethau rheolaidd â Gweinidogion y Cynulliad. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ymgynghori â'r Cynulliad llawn ar raglen deddfwriaethol y Llywodraeth.

Yn ogystal â'r gwaith deddfwriaethol, bu'r Gweinidogion yn gysylltiedig â rhaglen helaeth o waith Seneddol arall yn ystod y flwyddyn. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys wyth sesiwn o Gwestiynau Cymreig, pedwar cyfarfod o'r Uwch-Bwyllgor Cymreig, rhoi tystiolaeth bedair gwaith i'r Pwyllgor Materion Cymreig ac unwaith i Bwyllgor yr Arglwydd Barnett, sesiynau briffio gydag Aelodau o Dy'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar geisiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru am Bwerau Fframwaith, Dadl Dydd Gŵyl Dewi ac un Ddadl Ohirio yn Neuadd San Steffan. Ymddangosodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl Araith y Frenhines a oedd yn gosod allan Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU.

Mae'r ddau Weinidog hefyd yn ymgymryd â rhaglen brysur o gyfarfodydd, ymweliadau a derbyniadau gydag ystod eang o gyrff yng Nghymru. Cyfeirir at enghreifftiau penodol ym mhob rhan o'r adroddiad hwn.



### Llun – Huw Irranca-Davies AS

Hyd 5 Hydref 2008, Huw Irranca-Davies oedd Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru. Ef ar hyn o bryd yw'r Is-ysgrifennydd Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

### 1.3 Prif Lwyddiannau 2008-09

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ym 1999 a'i gwaith yw cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n ddidrafferth, a chynrychioli buddiannau Cymru o fewn Llywodraeth y DU a chynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru, yn ogystal â bod yn llais i Gymru yn San Steffan ac yn llais i San Steffan yng Nghymru.

Golyga hyn fod Swyddfa Cymru'n gyfrifol am gynnal y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a rhoi sylw i faterion polisi ac iddynt oblygiadau i Gymru. Mae ganddi hefyd gyfrifoldeb allweddol am ddelio â deddfwriaeth Cymru yn y Senedd, ac am roi atebion i'r Senedd am faterion Cymreig.

Drwy gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae'n sicrhau y bydd y grant arian yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ac y ceir derbynebau ganddi yr un modd. Mae hefyd yn ymgymryd â rhai swyddogaethau a gadwyd yn ôl i Gymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Swyddfa Cymru wedi llwyddo i wneud cynnydd sylweddol gyda nifer o bolisiau a chynlluniau ac yng nghyswllt deddfu, a dod â'r gwaith i ben gyda nifer o'r rhain. Disgrifir yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn amcanion y Swyddfa yn fanwl yn adran 4.3, ond nodir llwyddiannau sylweddol yma.

#### Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Bu gan Swyddfa Cymru ran allweddol yn y gwaith o wneud y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol canlynol:

- Gwnaethpwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Addysg a Hyfforddiant) 2008 ar 9 Ebrill 2008, ac mae'n rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar addysg a hyfforddiant ar gyfer y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig.
- Gwnaethpwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Lles Cymdeithasol) 2008 ar 9 Gorffennaf 2008, ac mae'n rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar y taliadau a godir gan awdurdodau lleol yng nghyswllt gofal cymdeithasol dibreswyl.
- Gwnaethpwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol)(Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 ar 10 Rhagfyr 2008, ac mae'n rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yng nghyswllt lles plant a phobl ifanc gan gynnwys plant sy'n fregus a mynd i'r afael â thlodi plant.

Mae gan Swyddfa Cymru rôl hanfodol o hyd yn helpu i hwyluso trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Orchmynion arfaethedig eraill yng nghyswllt Gofalwyr, y Diwydiant Cig Coch, Tai, Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff, y Gymraeg a Diwylliant. Hefyd, mae Llywodraeth y DU yn ystyried dau Orchymyn arfaethedig a gyflwynwyd gan Aelodau Cynulliad ar Iechyd Meddwl ac Ysgeintellau Tân, ac mae Swyddfa Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i symud y rhain yn eu blaen.

## **Pwerau Fframwaith**

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi parhau i hwyluso cynnwys Pwerau Fframwaith ym Mesurau'r DU. Pasiwyd tri Mesur o'r fath yn ystod Sesiwn 2007-08, sef:

- Deddf Cynllunio 2008;
- Deddf Addysg a Sgiliau 2008;
- Deddf Trafnidiaeth Leol 2008.

Yn ystod Sesiwn 2008/09, mae Pwerau Fframwaith yn cael eu cynnwys yn y Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir a'r Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu.

Gyda'i gilydd, mae'r gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a'r pwerau fframwaith hyn wedi gwella cryn dipyn ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar draws ystod eang o feysydd polisi, gan alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu Mesurau Cynulliad ar gyfer cyflwyno'i pholisïau'i hun ar ran pobl Cymru. Mae hyn yn dangos yn glir fod y trefniadau a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gweithio'n dda.

## **Llwyddiannau Deddfwriaethol Eraill**

Gan weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, mae Swyddfa Cymru wedi cyflwyno dau Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, un set o Reoliadau Cadarnhaol, un set o Reoliadau Negyddol ac un Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

Yn ystod Sesiwn 2007-08, fe basiodd y Senedd 11 Deddf ac ynddynt ddarpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru. Mae gan Sesiwn 2008-09 y Senedd nifer helaeth o Fesurau Seneddol sydd naill ai'n cynnwys darpariaethau penodol yng nghyswllt Cymru neu sydd â goblygiadau i Gymru. Hefyd, fe greodd nifer o Ddeddfau a basiwyd yn Sesiwn 2007-08 bwerau newydd sylweddol i Weinidogion Cymru, neu wneud addasiadau sylweddol i'w pwerau cyfredol. Mae Swyddfa Cymru'n parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ar Fesurau Seneddol Sesiwn 2008-09.

Cwblhaodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru adolygiad o'r trefniadau craffu ar deddfwriaeth Gymreig ym mis Gorffennaf 2008 a chyflwynodd ei ganfyddiadau i Gadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Gymreig.

Mae Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wedi cyflawni gwaith sylweddol yn datblygu'r broses ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol dan adran 95 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys trafodaethau manwl gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU a chyhoeddi Nodyn Cyfarwyddyd 16 ar Ddatganoli, sy'n rhoi cyfarwyddyd i adrannau Llywodraeth y DU ar yr egwyddorion a'r prosesau sy'n berthnasol i Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol.

## **Ymateb i'r Sefyllfa Economaidd**

Dros y flwyddyn a eth heibio, mae'r hinsawdd economaidd wedi bod yn un mater sydd wedi hoelio sylw Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru. Yn allweddol i'r ymateb fu datblygu perthynas weithio glos iawn rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r sefyllfa wedi gofyn am nifer o ymyriadau gan y Llywodraeth, mewn meysydd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn aelod o Gyngor Economaidd Cenedlaethol Llywodraeth y DU ac Uwchgynadleddau Economaidd Cymru Llywodraeth y Cynulliad, a bu ganddo ran allweddol yn datblygu a sicrhau dull gweithredu cydlynus.

Haf diwethaf, cyhoeddassom ddogfen o'r enw 'Yr Economi: Ffocws ar Gymru' a oedd yn gosod allan ymateb Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd i'r amgylchiadau economaidd sy'n newid. Ym mis Ionawr, cyhoeddassom ar ein gwefan restr o'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i deuluoedd a busnesau Cymru yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn fwyaf diweddar, ym mhumed Uwchgynhadledd Economaidd Cymru ym mis Ebrill, lansiodd trydydd cyhoeddiad gennym – llyfryn Help Gwirioneddol i Gymru, a gynlluniwyd i roi cyngor clir ac ymarferol i gartrefi, pensiynwyr a busnesau yn ystod y dirwasgiad am y gwahanol fathau o gefnogaeth a chynghor sydd ar gael iddynt.

Yn ychwanegol at y dogfennau hyn, mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn gwrandao ar bryderon ac anghenion busnesau Cymru ar bob lefel drwy gynnal cyfarfodydd â sefydliadau busnes allweddol a busnesau lleol ar draws Cymru, yn ogystal ag Uwchgynadleddau Economaidd Cymru. Mae'r gwaith hwn i gyd wedi cael ei gyfleu i graidd Llywodraeth y DU drwy'r Cyngor Economaidd Cenedlaethol a'r Cyngor Gweinidogion Rhanbarthol, a fynychir yn rheolaidd gan ein Gweinidogion.

## **Materion Polisi**

Mae gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn sawl polisi o eiddo'r Llywodraeth ac wedi hybu cysylltiad rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth DU gydol y broses. Dyma rai o brif lwyddiannau eleni:

**Cyflenwi Gwasanaethau Iechyd ar draws y Ffin.** Mae Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wedi cael rhan weithredol yn y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chydweithwyr yn yr Adran Iechyd i gytuno ar brotocol diwygiedig. Rhoddwyd protocol diwygiedig ar waith ar 1 Ebrill 2009.

**Astudiaeth Ddichonoldeb ar Ynni Llanw afon Hafren.** Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn allweddol yng nghyswllt datblygu'r cynigion ar gyfer cynhyrchu pŵer drwy ddefnyddio Aber Afon Hafren, gan weithio'n agos â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

**Alwminiwm Môn.** Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi cymryd diddordeb mawr iawn yn y rhagolygon ar gyfer Alwminiwm Môn, ac maent wedi cyfarfod â chydweithwyr gweinidogol o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, Prif Weinidog Cymru, a chynrychiolwyr Alwminiwm Môn a Chadeirydd ei riant-gwmni, Grŵp Rio Tinto.

**Cardiau adnabod.** Mae Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wedi cymryd rhan weithredol yn hwyluso ymgysylltiad â rhanddeiliaid yng Nghymru ar y mater pwysig hwn. Yng nghyswllt materion yn ymwneud â'r Gymraeg, mae Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan hollbwysig yn trefnu trafodaethau rhwng y Swyddfa Gartref a chyrrff â diddordeb fel Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Yn ogystal â'u dyletswyddau Gweinidogol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru yw'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Gynhwysiant Digidol. Gyda chefnogaeth tîm trawslywodraethol, maent wedi bod yn cydweithio â phartneriaid ar draws Whitehall ac wedi cyfarfod â rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i fwrw ymlaen â'r agenda. Arweiniodd hyn at gyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Digidol ym mis Hydref 2008. Maent hefyd wedi sicrhau bod buddiannau Cymru wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu.

Mae Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, fel Cadeirydd grŵp monitro Cymru, wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yng nghyswllt hawliadau a wnaethpwyd gan gyn lowyr yng Nghymru gan sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd wedi derbyn y cyfiawnder y maent yn ei haeddu. Erbyn diwedd Chwefror 2009 roedd dros £739 miliwn wedi'i dalu am Glefydau Anadlol a Chyflwr y Bysedd Gwyn i gyn lowyr a'u teuluoedd - £32 miliwn yn fwy nag ym mis Tachwedd 2008. Fe fydd yn parhau i fonitro'r cynnydd yn ofalus.

## 1.4 Cyfrifoldebau'r Is-adrannau



# Pennod 2



Cyfansoddiad a  
Deddfwriaeth



## Pennod 2:

# Cyfansoddiad a Deddfwriaeth

### 2.1 Fframwaith Cyfansoddiadol i Gymru

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ymrwymiad y Llywodraeth i fwrw ymlaen â'r broses ddatganoli. Mae iddi dair prif elfen:

- gwahanu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ffurfiol er mwyn osgoi dryswch a chael proses graffu fwy effeithiol;
- mwy o bwerau deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a
- newid y darpariaethau etholiadol fel nad yw ymgeiswyr aflwyddiannus yn etholiadau etholaethol y Cynulliad yn gallu dod yn Aelodau Cynulliad drwy'r rhestr ranbarthol dan y System Aelodau Ychwanegol.

Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi pwerau sylfaenol llawn ar y llyfr statudau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn meysydd a ddatganolwyd, a fyddai'n dod i rym ar ôl cael canlyniad o'u plaid mewn refferendwm.

### 2.2 Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

Swyddfa Cymru sy'n cydlynu'r broses o ystyried Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol gan Lywodraeth y DU a'i thrafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am geisio cydgytundeb ar Gorchmynion arfaethedig ar ôl y trafodaethau hynny. Bydd Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wedyn yn mynd â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drwy'r broses graffu cyn deddfu yn y Senedd a thrwy'r dadleuon yn y Senedd ar y Gorchmynion drafft terfynol.

Ar 6 Mehefin 2007, amlinellodd y Prif Weinidog Rhodri Morgan, raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru o chwe Gorchmyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig. Disgrifir pwrpas pob un isod:

#### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Dyma'r Gorchmyn Cymhwysedd Deddfwriaethol cyntaf a wnaethpwyd. Mae'n rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yng nghyswllt pobl mewn addysg neu hyfforddiant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n galluogi'r Cynulliad i weithredu ar argymhellion ei Bwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Fe'i cymeradwywyd ar 9 Ebrill 2008.

#### **Gofal Cartref**

Mae'r Gorchmyn hwn yn ymestyn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yng nghyswllt codi tâl gan awdurdodau lleol am ofal cymdeithasol dibreswyl, gan alluogi'r Cynulliad i gyflwyno dull mwy unffurf o godi tâl am ofal cartref a gwasanaethau cymdeithasol dibreswyl eraill yng Nghymru. Cymeradwywyd y Gorchmyn hwn ar 9 Gorffennaf 2008.

### **Plant bregus**

Mae'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor hwn yn rhoi'r cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yng nghyswllt plant bregus, plant sy'n derbyn gofal ac yng nghyswllt tlodi plant. Mae'n galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi deddfwriaeth gerbron i gydgrynhoi darpariaethau presennol y llyfr statudau ar gyfer plant sy'n fregus ac i ddeddfu yng nghyswllt rôl cyrff cyhoeddus yn y maes hwn. Cymeradwywyd y Gorchymyn ar 9 Rhagfyr 2008 a daeth i rym ar 10 Rhagfyr 2008.

### **Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff**

Byddai'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yng nghyswllt gwastraff, ac ar faterion yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, megis niwsans. Mae trafodaethau adeiladol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ar gwmpas a chynnwys y Gorchymyn arfaethedig hwn yn parhau. Cafodd y gorchymyn ei gyhoeddi er mwyn graffu arno cyn y broses ddeddfu ar 27 Ebrill 2008.

### **Tai**

Byddai'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig yn rhoi cymhwysedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu yng nghyswllt cael gwared â thir sy'n cael ei ddal neu sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion tai gan landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys y cynlluniau Hawl i Brynu a Hawl i Gaffael. Cymeradwywyd y Gorchymyn arfaethedig gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Ionawr 2008, ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 3 Chwefror 2009.

### **Y Gymraeg**

Cyhoeddwyd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig ar y Gymraeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 2 Chwefror 2009, a'i osod gerbron y Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 9 Chwefror. Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi i graffu arno cyn y broses ddeddfu. Hefyd, gwahoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw un yng Nghymru sydd â diddordeb yn y cynigion i roi eu sylwadau fel rhan o ddadl gyhoeddus ehangach am gwmpas a chynnwys y Gorchymyn arfaethedig. Bydd y Gorchymyn, pan ddaw i rym, yn galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i fwrw ymlaen â'i hymrwymiaadau i gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg a'r Saesneg, hawliau ieithyddol wrth ddarparu gwasanaethau a sefydlu swydd Comisiynydd Iaith.

Cyhoeddwyd rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2008 ar 15 Gorffennaf 2008 gan Brif Weinidog Cymru a chyflwynodd dri Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arall sydd yn yr arfaeth. Disgrifir pwrpas pob un isod:

### **Gofalwyr**

Cyhoeddwyd y Gorchymyn Gofalwyr arfaethedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 8 Rhagfyr 2008, ac fe'i cyflwynwyd i'r Senedd ar gyfer craffu arno cyn y broses ddeddfu ar 9 Rhagfyr 2008. Fe wnaeth y Pwyllgor Materion Cymreig cyhoeddi eu adroddiad ar 28 Ebrill 2009. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig hwn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Mesurau ynghylch cefnogi darparu gofal gan ofalwyr a hybu lles gofalwyr. Mae'r Mesur arfaethedig yn destun craffu gan y Cynulliad a'r Senedd.

## Y Diwydiant Cig Coch

Cymeradwywyd y Gorchymyn drafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Mawrth 2009 a'i osod gerbron y Senedd ar 1 Ebrill 2009. Bydd y Gorchymyn drafft yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yng nghyswllt hybu, marchnata a datblygu'r sector cig coch yng Nghymru. Mae'r broses graffu cyn deddfu wedi'i chwblhau yng nghyswllt y Gorchymyn hwn, ac ni argymhellodd y naill bwyllgor na'r llall wneud newidiadau i gwmpas na chynnwys y Gorchymyn.

## Diwylliant

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i ddarparu profiadau diwylliannol o ansawdd da ar gyfer eu cymunedau.

Mae trafodaethau cychwynol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi cael eu cynnal ar y Gorchymyn arfaethedig hwn.

## 2.3 Mesurau Cynulliad

Mae gan Swyddfa Cymru rôl hanfodol yn helpu i hwyluso trafodaethau a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yng nghyswllt Mesurau arfaethedig y Cynulliad sy'n cynnwys darpariaethau y mae'n rhaid cael cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu cylch, neu sydd â goblygiadau eraill i fuddiannau polisi Llywodraeth y DU.

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn monitro Mesurau arfaethedig wrth iddynt basio drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn sicrhau fod cyfanrwydd yr ardfrefniant datganoli yn cael ei gadw. Mae Swyddfa Cymru, ynghyd â swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn cyflawni'r rôl o gynghori ar arfer y pwerau hyn ac mae wedi cydweithio â Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol i ddatblygu gweithdrefnau monitro ar gyfer Mesurau arfaethedig.

Mae'r Mesurau Cynulliad canlynol wedi cael eu pasio gan y Cynulliad a'u cymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor:

- Gwnaethpwyd Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 ar 6 Mai 2008.
- wnaethpwyd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ar 18 Tachwedd 2008.

Am fanylion y Mesurau Cynulliad hyn gweler Atodiad 3.

## 2.4 Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU

Mae gan Swyddfa Cymru ran allweddol o hyd yn hwyluso trafodaethau am Fesurau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU gydag Adrannau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hadlewyrchu yn y rhaglen.

Yn ystod Sesiwn 2007-08, pasiodd y Senedd dair Deddf a oedd yn cynnwys Pwerau Fframwaith: Deddf Addysg a Sgiliau 2008, Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 a Deddf Cynllunio 2008.

Hysbysodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei gydweithwyr yn Senedd y DU ar 4 Rhagfyr 2008 drwy gyfrwng Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig y byddai dau Fesur yn Sesiwn 2008-09 yn cynnwys Pwerau Fframwaith. Y rhain yw'r Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu a'r Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir.

Yn Sesiwn 2007–08, fe basiodd y Senedd 11 Deddf ac ynddynt ddarpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru, ac fe'u disgrifir yn Atodiad 1. Mae gan Sesiwn 2008–09 y Senedd 8 Mesur Llywodraeth sydd naill ai'n cynnwys darpariaethau neu sydd â goblygiadau i Gymru, ac fe'u disgrifir yn Atodiad 2.

Fe greodd nifer o Ddeddfau a basiwyd yn Sesiwn 2007–08 Session bwerau newydd o bwys i Weinidogion Cymru, neu fe wnaethant newidiadau o bwys i'w pwerau cyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys Deddf Addysg a Sgiliau 2008; Deddf Trafnidiaeth Leol 2008; Deddf Cynllunio 2008; Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008; Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008; Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; Deddf Tai ac Adfywio 2008; Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau Act 2008; a Deddf Gwerthu Benthyciadau Myfyrwyr 2008.

Yn Sesiwn 2008–09, mae'r Mesurau Seneddol a fydd yn rhoi pwerau newydd o bwys i Weinidogion Cymru neu'n newid eu pwerau cyfredol yn cynnwys Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu, Mesur Atodiad Ardrethi Busnes, Mesur Crwneriaid a Chyfiawnder, Mesur Iechyd, Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu, Mesur Cydraddoldeb, Mesur Mynediad i'r Môr a'r Arfordir a Mesur Diwygio Lles.

Yn 2008 cyhoeddodd y Llywodraeth ei rhaglen deddfwriaethol ar ffurf drafft am yr eildro, ac aeth Swyddfa Cymru ati'n frwd i gael barn pobl Cymru am y rhaglen ddrafft drwy ysgrifennu at randdeiliaid ledled Cymru a rhoi sylw i'r rhaglen ddrafft ar ein gwefan. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ehangach a gynhaliwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Anerchodd yr Ysgrifennydd Gwladol Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2008, yn dilyn Araith y Frenhines i'r Senedd.

### **Deddfwriaeth Arall**

Dan adran 58 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall swyddogaethau Gweinidogion y DU gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru. Cafwyd dau Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn 2008–09, gan ddatganoli swyddogaethau a oedd yn ymwneud â throsglwyddo cleifion sy'n cael eu cadw dan glo a gwerthu ewyllys da practisau meddygol, a chyfrifoldeb am addysg yng ngharchardai Cymru. Hefyd, cafwyd un set o Reoliadau Cadarnhaol ac un set o Reoliadau Negyddol, y ddwy yn ymwneud â Rheoliadau Gorfodaeth Sifil ac un Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â phenodi Arolygwyr Addysg.

## **2.5 Codi Ymwybyddiaeth o Ddatganoli**

### **Seminarau**

Mae Swyddfa Cymru'n dal i gydweithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a swyddfeydd tiriogaethol eraill i gyflwyno rhaglen o seminarau yn holl Adrannau Llywodraeth y DU. Bwriad y seminarau hyn yw hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddatganoli a dealltwriaeth o'r setliadau ymhob rhan o Lywodraeth y DU. Mae Swyddfa Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi ymwybyddiaeth o ddatganoli yn Whitehall.

Mae cyfreithwyr Swyddfa Cymru'n cyfrannu at gyflwyno hyfforddiant ar ddatganoli i gyfreithwyr yng Ngwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys siarad ar gyrsiau hyfforddiant cyfreithiol a ddarperir gan yr Ysgol Lywodraethu Genedlaethol a darparu hyfforddiant ar setliad datganoli Cymru i dimau cyfreithiol yn adrannau unigol Whitehall.

### **Arweiniad ar Ddatganoli**

Mae Swyddfa Cymru hefyd yn cynghori Adrannau Llywodraeth y DU ar faterion datganoli fesul achos; mae hyn yn ategu'r wybodaeth sydd ar gael i swyddogion yn y nodiadau esboniadol ar ddatganoli ac mewn arweiniad arall.

Mae cyfreithwyr Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau eraill i sicrhau bod y cyngor ar arweiniad sydd ar gael am faterion datganoli i gyfreithwyr y Llywodraeth yn cael ei ddiweddarau'n gyson.

Mae'r Nodiadau Esboniadol ar Ddatganoli (DGNs) yn darparu arweiniad ar y trefniadau gwaith rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ac yn cynnig rhagarweiniad i'r prif egwyddorion sy'n gysylltiedig â rheoli'r setliadau datganoli, cysylltiadau dwyochrog, gohebu, busnes Seneddol, deddfwriaeth a choncordatau. Y nodiadau esboniadol ar ddatganoli mwyaf perthnasol i waith Swyddfa Cymru yw:

#### **DGN 1 – Trefniadau Gweithio Cyffredin**

<http://www.justice.gov.uk/guidance/devolutionguidancenotes.htm#one>

#### **DGN 4 – Rôl Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

<http://www.justice.gov.uk/guidance/devolutionguidancenotes.htm#four>

#### **DGN 9 – Deddfwriaeth Sylfaenol ar ôl Datganoli sy'n effeithio ar Gymru**

<http://www.justice.gov.uk/guidance/devolutionguidancenotes.htm#nine>

**DGN 16 – Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol dan adran 95 Deddf Llywodraeth Cymru 2006** <http://www.justice.gov.uk/guidance/devolutionguidancenotes.htm#sixteen>

### **Gwefan Adran Ddeddfwriaeth Swyddfa Cymru**

Mae gwybodaeth ar wefan Swyddfa Cymru am y ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys:

- Mesurau a Deddfau'r DU;
- Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ac Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Mesurau'r Cynulliad;
- Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau; ac offerynnau statudol eraill sy'n gysylltiedig â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Pennod 3



Hyrwyddo  
a Chefnogi  
Cymru

## Pennod 3:

# Hyrwyddo a Chefnogi Cymru

Mae cyfrifoldebau a rhwymedigaethau Swyddfa Cymru a'i gweinidogion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i bennu a chynnal y broses a'r fframwaith deddfwriaethol a chyfansoddiadol, ac yn cynnwys ymdrechion i hyrwyddo Cymru ar bob lefel, yn enwedig eleni, yn economaidd.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog wedi teithio'n bell o San Steffan a Bae Caerdydd i hyrwyddo economi, amgylchedd, cymunedau a diwylliant Cymru. Buont ar ymweliadau mynych i ymgysylltu â phobl, hyrwyddo Cymru a thrafod ffyrdd o wella bywydau pob dydd pobl Cymru.

Yn dilyn dechrau'r dirywiad economaidd haf diwethaf, roedd ymweliadau gweinidogol yn canolbwyntio ar economi Cymru. Teithiodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog ar draws Cymru i gyfarfod â phobl fusnes i wrando ar eu barn ac i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol yr oedd ei hangen arnynt i'w helpu drwy'r dirywiad. Cafodd yr holl sylwadau a phryderon a godwyd eu cyfleu i'r Llywodraeth, yng Nghymru ac yn San Steffan, i sicrhau y cymerwyd camau cydlynol i gyflawni'r effaith orau bosibl.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, ymgwymerwyd ag ymweliadau o lawer math â sawl rhan o Gymru. Dyma giplun o'r gweithgareddau:

### Ebrill 2008

- Teithiodd Ysgrifennydd Cymru Paul Murphy ar draws y DU i gynnal cyfres o gyfarfodydd gyda Phrif Weinidog Cymru Rhodri Morgan, Prif Weinidog yr Alban Alex Salmond a Phrif Weinidog Gogledd Iwerddon Ian Paisley a'r Dirprwy Brif Weinidog Martin McGuinness cyn y cyfarfod cyntaf o'r Cydbwyllgor Gweinidogion i'w gynnal er 2002.
- Yn y cyfamser, aeth y Gweinidog Huw Irranca-Davies ar daith rhwng gogledd a de Cymru i weld drosto'i hun y cyfraniad y mae'r gwasanaethau amddiffyn yn ei wneud i Gymru. Roedd y daith dridiau hefyd yn cyd-daro â dathlu pen-blwydd yr Awyrlu Brenhinol yn 90 oed a phen-blwydd y Fyddin Dirioogaethol yng Nghymru yn 100 oed.



Paul Murphy gyda Prif Weinidog Gogledd Iwerddon Ian Paisley a Dirprwy Prif Weinidog Martin McGuinness ym Melfast

Huw Irranca-Davies yn ymweld â RAFValley Paul Murphy yn lansiad prosiect plant sy'n derbyn gofal yn Llanelli



### Mai 2008

- Wrth i'r Llywodraeth gyhoeddi ei Rhaglen Ddeddfwriaethol ddrafft cyn Araith y Frenhines, adleisiodd Paul Murphy ymrwymiad y Prif Weinidog i helpu pobl ledled y DU ar adeg pan oedd biliau ynni, bwyd a thanwydd yn codi. Gofynnodd Swyddfa Cymru am sylwadau ar y rhaglen ddrafft oddi wrth unigolion a rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru.
- Bu Mr Murphy hefyd yn cynorthwyo plant dan anfantais yn Sir Gaerfyrddin i fynd ar-lein pan ymwelodd â Llanelli i lansio'r prosiect 'Plant sy'n Derbyn Gofal' a gyllidir gan BT a Chyngor Sir Caerfyrddin.

### Mehafin 2008

- Cynhaliodd yr Uwch-Bwyllgor Cymreig ei ddadleuon thematig cyntaf newydd ym mis Mehefin. Anerchodd Gweinidog Ynni'r DU Malcolm Wicks ASau Cymru ar faterion ynni sy'n effeithio ar etholwyr yng Nghymru, gan gynnwys datblygu ffermydd gwynt a Morglawdd Hafren. Yn ystod y flwyddyn bu'r Uwch-Bwyllgor Cymreig yn trafod economi Cymru hefyd a chynnwys Araith y Frenhines.
- Siaradodd Paul Murphy yng Ngwobrau Cenedlaethol UK Online yn Theatr y Globe Llundain, lle cyflwynodd y gwobrau gydag Andrea McLean.
- Ymwelodd Huw Irranca-Davies â Chanolfan Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Lerpwl i weld pa wersi y gallai'r llys cymunedol cyntaf yng Nghymru eu dysgu gan Lerpwl.



Paul Murphy gyda'r cyflwynwraig teledu Andrea McLean a'r enillydd Lukas Windrow



Paul Murphy yn ymweld â Stondin Menter Mynyddoedd  
Cambria yn Sioe Frenhinol Cymru

## Gorffennaf 2008

- Cafodd Paul Murphy dywydd braf pan ymwelodd â'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Cyfarfu â chynrychiolwyr yr undebau amaethwyr yng Nghymru ac ymwelodd â stondin Menter Mynyddoedd Cambria lle cafodd gwybod am gynaliadwyedd cymunedau gwledig Mynyddoedd Cambria.
- Yn y cyfamser, bu Huw Irranca-Davies yn rhan o ddiwrnod ymgynghori cenedlaethol ar raglen ddeddfwriaethol ddrafft Llywodraeth y DU. Yn ystod y dydd, cyfarfu Mr Irranca-Davies â myfyrwyr o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr a nifer o fusnesau Cymru i ofyn am eu barn a'u safbwyntiau.
- Dangosodd ffigurau troseddu a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf sut y mae cynlluniau'r Llywodraeth wedi helpu i leihau troseddu cyffredinol yng Nghymru 6 y cant. Gan groesawu'r ffigurau, canmolodd Mr Murphy waith asiantaethau rheng flaen lleol sy'n gweithio i leihau troseddu. Roedd Mr Murphy yn mynychu digwyddiad gwobrwyo arbennig yng ngwesty'r Celtic Manor, Casnewydd i gydnabod cyflawniadau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws Cymru wrth iddynt gyfrannu at y gostyngiad mewn troseddu ac ofn troseddu ac anhrefn mewn cymunedau lleol. Ymwelodd Ysgrifennydd Cymru hefyd â chynllun Grŵp Prosiect Cymdogaethau Mwy Diogel ym Mhontnewynydd, Tor-faen, sy'n cyflenwi canlyniadau ar ran y gymuned.
- Mynychodd Mr Murphy wasanaeth yn Abaty Westminster hefyd i ddathlu sefydlu'r GIG 60 mlynedd yn ôl gan Aneurin Bevan, y Gweinidog Llafur dros Iechyd ac AS Blaenau Gwent. Dywedodd y byddai Nye yn falch o weld y ffordd y mae'r GIG yng Nghymru'n ymateb i heriau gofal iechyd yr 21ain Ganrif.



Chwith: Paul Murphy yn ymweld â grŵp prosiect cymdogaeth mwy diogel yn Nhorfaen  
Dde: Huw Irranca-Davies yn cyfarfod myfyrwyr yng Ngholeg Pen-y-Bont

## Awst 2008

- Ymwelodd Paul Murphy â *Contour Premium Aircraft Seating* ym Mharc Diwydiannol Llantarnam, Cwmbrân i weld y dechnoleg ddiweddaraf ym maes seddi awyrennau, a gynhyrchir yn Ne Cymru. Mae *Contour Premium Aircraft Seating*, yn cyflenwi rhai o brif gwmnïau awyrennau'r byd ag amrywiaeth o seddi arloesol a phwrpasol ar gyfer teithwyr busnes a dosbarth cyntaf.
- Mewn digwyddiad cofiadwy i ddathlu llwyddiant chwaraeon cenedlaethol, ymunodd Mr Murphy â Phrif Weinidog Cymru Rhodri Morgan i groesawu arwyr y Gemau Olympaidd o Gymru yn ôl o gemau Beijing. Bu Paul Murphy yn llongyfarch holl aelodau Cymreig Tîm Prydain Fawr a siaradodd am y brwdfrydedd sy'n ysgubo ar draws y wlad cyn i'r Gemau Olympaidd ddod i Lundain yn 2012.



Paul Murphy yn ymweld â Contour Premium Aircraft Seating yn Llantarnam

## Medi 2008

- Ymwelodd Huw Irranca-Davies â'r Ganolfan Byd Gwaith yn Wrecsam i weld sut y mae'r cynllun Llwybrau at Waith yn helpu pobl ddi-waith i ddod o hyd i waith a hyfforddiant yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.
- Ar un o'i ymweliadau olaf fel Gweinidog yn Swyddfa Cymru, ymwelodd Mr Irranca-Davies hefyd â Chrucywel i weld sut yr oedd cynllun tai ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn darparu tai fforddiadwy ac ymarferol i bobl leol.



Chwith: Huw Irranca-Davies yn ymweld â Chanolfan Byd Gwaith yn Wrexham  
Dde: Huw Irranca-Davies yn ymweld â chynllun tai fforddiadwy yng Nghrucywel

Chwith Paul Murphy gyda'r Prif Weinidog Rhodri Morgan a Dirprwy Prif Weinidog Ieuan Wyn Jones  
yn Uwchgynhadledd Economaidd Cymru Gyfan gynta  
Dde: Paul Murphy yn ystod ymweliad â therfynell LNG South Hook yn Aberdaugleddau



## Hydref 2008

- Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Economaidd gyntaf Cymru yng Nghaerdydd. Mynychodd Paul Murphy y cyfarfod gyda Phrif Weinidog Cymru Rhodri Morgan a'r Dirprwy Brif Weinidog Ieuan Wyn Jones i sicrhau y ceir dull gweithredu drwy bartneriaeth wrth fynd i'r afael â'r dirywiad economaidd yng Nghymru. Gan gyhoeddi dogfen ar y cyd 'Yr Economi: Ffocws ar Gymru – ymateb ar y cyd i amgylchiadau economaidd sy'n newid', fe siaradodd am y mesurau amrywiol sydd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith i helpu busnesau a phobl Cymru ymdopi â'r anawsterau economaidd presennol. Ymysg y rhai a fynychodd oedd cynrychiolwyr byd busnes, yr undebau, bancio a gwerthu o bob rhan o Gymru.
- Ymwelodd Mr Murphy â Gorllewin Cymru i weld sut y gallai terfynell nwy naturiol hylifedig (LNG) newydd South Hook yn Aberdaugleddau gyflenwi cyfran sylweddol o ofynion nwy'r DU yn y dyfodol tra'n helpu i roi hwb i economi Sir Benfro.
- Yn ystod ei ymweliad swyddogol cyntaf ar ôl cael ei benodi, siaradodd Gweinidog newydd Swyddfa Cymru Wayne David mewn digwyddiad cysylltu â'r cyhoedd ar ddiwygio lles a drefnwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith yng Nghaerdydd.
- Croesawodd Mr Murphy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Ruth Marks, i Dŷ Gwydyr ar gyfer lansio ei hadroddiad interim cyntaf yn Llundain.



Paul Murphy gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru Ruth Marks

## Tachwedd 2008

- Yn ystod ymweliad â'r Rhyl gyda Prif Weinidog Cymru Rhodri Morgan, gwelodd Paul Murphy sut yr oedd Strategaeth Dinas y Rhyl yn dechrau gwneud gwahaniaeth go iawn i'r gymuned leol. Ymwelodd y ddau hefyd â Choleg Llandrillo i gwrdd â dysgwyr y cwrs 'Mynediad i Adwerthu', cyn mynd i gwrdd â Grŵp Gweithredu Ieuencid y Rhyl. Yr un diwrnod aethant i ail Uwchgynhadledd Economaidd Cymru yn Technium OpTIC ym Mharc Busnes Llanelwy.
- Gan gadeirio ei gyfarfod cyntaf o'r grŵp Monitro Hawliadau Iechyd Glo yng Nghaerdydd, cyhoeddodd y Gweinidog Wayne David fod yr iawndal a oedd wedi'i dalu i gyn lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru wedi cyrraedd £707m.
- Ymwelodd Mr David â Wrecsam a chyfarfu â busnesau bach ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam er mwyn gwrandao ar eu barn a'u pryderon am y dirywiad economaidd.

## Rhagfyr 2008

- Cynhaliwyd trydedd Uwchgynhadledd Economaidd Cymru lle cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru raglenni ychwanegol gwerth £68 miliwn i helpu unigolion, cymunedau a busnesau ledled Cymru drwy'r dirywiad economaidd presennol, gan gynnwys y rhaglen ProAct i ddarparu hyfforddiant i bobl a fyddai fel arall yn cael eu gwneud yn ddi-waith neu'n gorfod gweithio amser byr. Dywedodd Mr Murphy wrth yr Uwchgynhadledd fod ymateb Cymru i'r dirywiad economaidd wedi bod yn rhagorol, a bod gweddill y Deyrnas Unedig yn dysgu gwersi o ymateb Cymru.
- Anerchodd Mr Murphy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gynnwys Araith y Frenhines.
- Cynhaliodd Mr Murphy de parti Nadoligaidd i bobl ifanc arbennig o'r elusen plant LATCH yng Nghymru pan fuont ar ymweliad Nadoligaidd arbennig â San Steffan. Gyda'r plant, a oedd yn dod o Dde a Gorllewin Cymru oedd eu rhieni, cydlynnydd LATCH, Tony Curtis a'i dîm, Gwarchodfilwyr Cymreig a Shenkin yr afr - masgot Catrawd Frenhinol Cymru.



Chwith: Paul Murphy yn ymweld â phrosiect Strategaeth Dinas y Rhyl gyda Prif Weinidog Rhodri Morgan  
Dde: Paul Murphy yn croesawu cynrychiolwyr o elusen plant Cymru LATCH i Swyddfa Cymru

Uchod: Paul Murphy gyda'r Prif Weinidog Gordon Brown a Phrif Weinidog Cymru Rhodri Morgan yn ystod ei ymweliad â De Cymru  
Gwaelod: Paul Murphy yn ymweld â Phrifysgol Cymru Casnewydd

## Ionawr 2009

- Croesawodd Paul Murphy y Prif Weinidog, Gordon Brown pan oedd yn ymweld â De Cymru fel rhan o daith ranbarthol dri diwrnod o gwmpas y DU. Aeth Mr Brown i Contour Premium Seating ym Mharc Diwydiannol Llantarnam, Cwmbrân a swyddfeydd newydd Cyfryngau Cymru yng Nghaerdydd.
- Cynhaliodd Wayne David ragor o gyfarfodydd gyda phobl fusnes lleol yng Ngorllewin Cymru. Daeth dros 40 o bobl fusnes i gyfarfodydd yn Nhycroes a Llanelli i ddweud wrth y Gweinidog am yr heriau y maent yn eu hwynebu.
- Ymwelodd Mr Murphy â champws Prifysgol Cymru Casnewydd yng Nghaerllion i weld y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd y Brifysgol yng nghanol y ddinas ac i gyfarfod â myfyrwyr y cwrs ffasiwn a'r cwrs cyfryngau newydd.



## Chwefror 2009

- Aeth Paul Murphy i Abertawe i weld sut y mae aelodau'r gymuned busnesau bach yn ymdopi ag effeithiau'r dirywiad economaidd byd-eang. Cyfarfu â rheolwyr ar daith o gwmpas Bragdy nodedig Tomos Watkins ar Barc Menter Abertawe cyn teithio i SA1 i weld sut mae'r datblygiad glan dŵr yn adfywio'r ardal leol ac yn denu buddsoddiadau a swyddi newydd i'r ddinas.
- Lansiodd Wayne David brosiectau i wneud technoleg yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau yn Ne Cymru.



Chwith: Wayne David yn lansio prosiect cynhwysiant digidol yn Nhredegar Newydd  
Dde: Paul Murphy yn ymweld â Bragdy Tomos Watkins yn Abertawe

- Cafodd Paul Murphy gymrodoriaeth anrhydeddus gan Brifysgol fwyaf newydd Cymru, Prifysgol Glyndŵr yn Wrecsam, i gydnabod ei gyfraniad at ddatganoli yng Nghymru.
- Arweiniodd Mr Paul Murphy ddirprwyaeth Llywodraeth y DU pan gyfarfu gweinidogion y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig i gytuno i gydweithio i rannu'r arferion gorau ar gyfer helpu i wynebu heriau'r dirywiad economaidd ym mhob cwr o'r Ynsoedd hyn. Roedd y sefyllfa economaidd ar frig yr agenda pan gynhaliodd y Cyngor ei ddeuddegfed Uwchgynhadledd yn y Stadiwm Swalec newydd yng Nghaerdydd. Hefyd yn bresennol oedd y Taoiseach, Prif Weinidogion a Dirprwy Brif Weinidogion yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru, a Phrif Weinidogion Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw.

### Mawrth 2009

- Ymwelodd Paul Murphy â *Mangar International* yn Llanandras a sawl busnes lleol i'w sicrhau bod y Llywodraeth yn gwrandao ar eu pryderon ac yn gwneud popeth a allant i'w cynorthwyo drwy'r dirywiad economaidd.
- Croesawodd Mr Murphy dros 750 o gynrychiolwyr busnesau bach o bob rhan o'r DU i Westy'r Celtic Manor, Casnewydd, ar gyfer cynhadledd genedlaethol y Ffederasiwn Busnesau Bach yn y gwesty.
- Dathlodd Mr Murphy Wythnos Twristiaeth Prydain drwy ymweld ag Ynys Môn i weld beth yr oedd ganddi i'w gynnig i'r miloedd o ymwelwyr a fydd yn mynd i'r ynys drwy gydol y tymor gwyliau. Cyfarfu ag arweinwyr twristiaeth lleol ar yr ynys, yn ogystal â'r staff sy'n rhedeg y Ganolfan Groeso yn Llanfairpwllgwyngyll, i weld sut maent yn paratoi ar gyfer tymor prysur.
- Croesawodd Wayne David grŵp o ddawnsywyr o Ynys Môn i Dŷ Gwydyr. Roedd y grŵp yn ymweld â Llundain i hyrwyddo Ynys Môn.
- Rhoddodd Mr Murphy araith i gynrychiolwyr yng nghynhadledd Sefydliad Siartredig Tai Cymru yng Nghaerdydd ar ddeng mlynedd cyntaf datganoli.



Uchod: Wayne David gyda dawnswyr Cymreig o Ynys Môn  
Gwaelod: Paul Murphy yn ymweld â Mangar International



Chwith: Paul Murphy yng nghynhadledd cenedlaethol Ffederasiwn Busnesau Bach  
Dde: Paul Murphy yn cyfarh cynhadledd Sefydliad Tai Siartredig Cymru



# Pennod 4



Amcanion a  
Chyflawni



## Pennod 4:

# Amcanion a Chyflawni

### Edrych Ymlaen: Nodau ac Amcanion ar gyfer 2009-10

Mae nodau ac amcanion Swyddfa Cymru ar gyfer 2009-10 wedi'u hadolygu i ddangos amrediad ei gwaith yn eglurach. Mae Swyddfa Cymru yn bwriadu adolygu ei nodau a'i hamcanion bob blwyddyn, i sicrhau eu bod wedi'u cysoni'n briodol â'r cydbwysedd gwaith sy'n wynebu'r Swyddfa yn y blynyddoedd dilynol. Bydd yr adolygiad yn cydnabod hefyd fod gwaith y Swyddfa yn newid dros amser, i adlewyrchu datblygiad y setliad datganoli i Gymru.

#### 4.1 Nodau

Cefnogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth iddo gynrychioli Cymru yn Llywodraeth y DU, cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru, a sicrhau bod y setliad cyfansoddiadol i Gymru'n gweithio'n rhwydd ac yn effeithiol.

#### 4.2 Amcanion

##### Amcan 1 – Y Cyfansoddiad a'r Senedd

Cynnal a gwella'r setliad datganoli drwy:

- Sicrhau bod y newidiadau yn y setliad cyfansoddiadol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cael eu gweithredu'n rhwydd;
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnwys pwerau fframwaith ym mesurau priodol y DU, eu taith drwy'r Senedd, a thaith Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, drwy gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Adrannau Llywodraeth y DU;
- Sicrhau bod darpariaethau priodol ar gyfer Cymru'n cael eu cynnwys yn Mesurau'r DU, a goruchwyllo'u taith drwy'r Senedd wedyn, yn ogystal â bod yn gyfrifol am drosglwyddo swyddogaethau a gorchmynion eraill sy'n ofynnol gan y setliad datganoli;
- Monitro Mesurau'r Cynulliad i sicrhau fod cyfanrwydd yr ardrefniant datganoli yn cael ei gadw a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylai arfer ei bwerau ymyrryd;
- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog yn Nhŷ'r Cyffredin, a'r llefarwyr ar ran y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi, i ymateb i ddiddordebau'r Senedd mewn materion Cymreig a hyrwyddo proses graffu effeithiol, a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni'i gyfrifoldebau statudol i gyfrannu at drafodion y Cynulliad Cenedlaethol ac ymgynghori â nhw am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

### Amcan 2 – Llywodraeth

Cynnal cysylltiadau gwaith effeithiol â Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynrychioli buddiannau Cymru drwy:

- Hybu gweithio mewn partneriaeth rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a Llywodraeth y DU, a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, a sicrhau y gellir rhannu arferion gorau ac ymyriadau polisi effeithiol rhwng y Llywodraethau er mwyn gwireddu'r budd a ddaw o ddatganoli o ran cael amrywiaeth yn y dull gweithredu;
- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i fuddiannau Cymru mewn swyddogaethau sydd heb eu datganoli ac mewn meysydd polisi sy'n torri ar draws cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Sicrhau bod Cymru'n manteisio yn y ffordd orau bosibl o gynlluniau'r Llywodraeth i leihau effaith yr amodau economaidd cenedlaethol a byd-eang presennol, a bod y gwaith a wneir ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn gwneud yn siŵr fod cynlluniau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb perthnasol yn cydategu'i gilydd;
- Parhau i adolygu gweithrediad y Datganiad Polisi Ariannu ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig, fel y mae'n gymwys i Gymru, ar y cyd â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- Cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau y bydd y grant arian yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ac y ceir derbynebaw ganddi yr un modd.

### Amcan 3 – Cynrychioli

Cynrychioli buddiannau Cymru yn y byd ehangach drwy:

- Gymryd camau i gyfleu barn Cymru'n effeithiol a chyd-drefnu polisi'n effeithiol;
- Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol Cymru mewn cyd-destunau heblaw'r Senedd a'r Llywodraeth, a chyfrannu at drafodaeth gyhoeddus wybodus.

### Amcan 4 – Llywodraethu

Sicrhau, datblygu a rheoli'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn mewn modd effeithiol ac effeithlon, ac i roi cyfrif am ein stiwardiaeth a'n rheolaeth o adnoddau, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Gwerth – cynyddu effeithlonrwydd, darbodaeth a gwerth am arian i'r eithaf;
- Pobl – buddsoddi yn ein pobl a thynnu'r gorau ohonynt; a
- Cyflawni – datblygu a gwella'r modd yr ydym yn cyflawni pob un o'r amcanion.

### 4.3 Edych yn ôl: Cyflawni yn erbyn Amcanion yn 2008-09

#### Amcan 1 – Y Cyfansoddiad a'r Senedd

Cynnal a gwella'r setliad datganoli drwy:

- Sicrhau bod y newidiadau yn y setliad cyfansoddiadol sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cael eu gweithredu'n rhwydd;
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy gynnwys Pwerau Fframwaith ym Mesurau priodol y DU a mynd â Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor drwy'r Senedd, gan gydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Adrannau eraill Llywodraeth y DU;
- Helpu Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru wedi'u hadlewyrchu ym Mesurau Seneddol y DU;
- Rhoi cymorth i fynd â gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau a gorchmynion eraill sy'n ofynnol oherwydd y setliad datganoli drwy'r Senedd;
- Monitro Mesurau'r Cynulliad i sicrhau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu a ddylai arfer ei bwerau ymyrryd; a
- Galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog yn Nhŷ'r Cyffredin, a'r llefarwyr ar ran y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi, i ymateb i ddiddordebau'r Senedd mewn materion Cymreig.

#### Cyflawni

Rydym wedi parhau i gydweithio â'r holl bartïon sydd â diddordeb i sicrhau bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei gweithredu'n rhwydd.

Rydym wedi cydweithio'n agos â'r holl bartïon sydd â diddordeb i sicrhau bod y broses ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor yn dal i weithredu'n ddidrafferth. Mae Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan allweddol mewn trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt y rhaglen o Orchmynion a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ym Mehefin 2007 ac yng Ngorffennaf 2008. Mae tri Gorchmynion wedi gorffen eu taith drwy'r Senedd bellach ac wedi'u mewnosod yn Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae cynnydd da'n cael ei wneud ar y Gorchmynion posibl eraill a gyflwynwyd.

Mae deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru a Lloegr wedi parhau i ddarparu'n benodol ar gyfer Cymru lle'r oedd hynny'n briodol, ac mae hynny wedi cynnwys rhoi swyddogaethau newydd i Weinidogion Cymru. Mae Swyddfa Cymru wedi ymgysylltu â thimau Mesurau'r DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y rhoddir sylw i elfennau Cymreig ac y cânt eu trin yn briodol yng ngholeuni'r trefniadau cyfansoddiadol newydd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym hefyd wedi ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru ac wedi gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo rhaglen deddfwriaethol ddrafft y DU.

Mae manylion y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi gwneud darpariaethau ar gyfer Cymru ers Adroddiad Blynyddol 2007 wedi'u nodi yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

Drwy weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, mae Swyddfa Cymru wedi datblygu dau Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau, un set o Reoliadau Cadarnhaol, un set o Reoliadau Negyddol ac un Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

Mae Swyddfa Cymru'n parhau i fonitro cynnydd Mesurau'r Cynulliad i sicrhau y dônt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae dau Fesur wedi cael eu pasio bellach gan y Cynulliad.

Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i ymateb i ddiddordebau'r Senedd mewn Materion Cymreig. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae Gweinidogion a llefarwyr Swyddfa Cymru wedi ymateb i gwestiynau seneddol llafar ac ysgrifenedig. Mae'r Uwch Bwyllgor Cymreig wedi cael trafodaethau ar bolisi Ynni, y Gyllideb, yr Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Araith y Frenhines. Hefyd, cyfarchodd Gweinidogion Swyddfa Cymru'r ddadl flynyddol ar faterion Cymreig ar ddydd Gŵyl Dewi. Mae swyddogion a Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig mewn dadleuon ar Orchymynion yn y Cyfrin Gyngor a dadleuon am Fesurau sy'n cynnwys Pwerau Fframwaith. Hefyd, mae swyddogion a Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi parhau i gynnal sesiynau briffio ar gyfer Aelodau o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar Fesurau sy'n cynnwys Pwerau Fframwaith. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru hefyd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder.

## Amcan 2 – Llywodraeth

Cynnal cysylltiadau gwaith effeithiol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy:

- Hybu gwaith mewn partneriaeth rhwng y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a Llywodraeth y DU, a chyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill;
- Sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hystyried yn llawn mewn swyddogaethau sydd heb eu datganoli, ac mewn meysydd polisi sy'n torri ar draws cyfrifoldebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Parhau i adolygu gweithrediad y Datganiad Polisi Cyllid ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig, fel y mae'n gymwys i Gymru, ar y cyd â Thrysorlys EM a Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Cydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y grant arian yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Cyflawni

Mae Swyddfa Cymru'n parhau i gyfrannu at gyfarfodydd pedrochr cyllid y Gweinyddiaethau Datganoledig gyda Thrysorlys EM, lle mae materion sy'n codi yn sgil y datganiad polisi cyllid yn cael eu trafod. Mae Llywodraeth y DU yn dal yn benderfynol o ddefnyddio fformiwla Barnet i bennu'r cyllid ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae Swyddfa Cymru'n parhau i fonitro'r broses sydd wedi'u gwreiddio, i sicrhau bod y grant arian yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol i Gronfa Gyfunol Cymru, gyda Swyddfa Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn cynrychioli buddiannau Cymru mewn sawl polisi o eiddo'r Llywodraeth ac wedi hybu cysylltiad rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth DU gydol y broses. Dyma rai o brif lwyddiannau eleni:

### **Economi**

**Y Cyngor Economaidd Cenedlaethol.** A'r Cyngor wedi'i sefydlu i gydlynu ymateb Llywodraeth y DU i'r dirywiad economaidd, yr Ysgrifennydd Gwladol yw llais Cymru yn y cyfarfodydd wythnosol hyn ac yn sicrhau bod materion sy'n ymwneud ag anghenion Cymru a chwmpas tiriogaethol unrhyw gynlluniau'n cael eu hystyried ar lefel uchaf Llywodraeth.

**Cyngor y Gweinidogion Rhanbarthol.** Mae'r Gweinidog yn mynychu'r cyfarfodydd rheolaidd hyn i gynrychioli barn Cymru a materion sy'n ymwneud â Chymru.

**Cymorth Go Iawn.** Lluniodd Swyddfa Cymru'r ddogfen hon ddechrau 2009 i ddarparu rhestr gynhwysfawr o'r gefnogaeth sydd ar gael i frwydro yn erbyn y dirywiad gan gynnwys y llu gynlluniau newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn ar gael ar wefan Swyddfa Cymru hefyd.

**Llawlyfr Help Gwirioneddol i Gymru.** Cyhoeddwyd y llawlyfr hwn i ddwyn sylw at y pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth sydd ar gael gan y Llywodraeth i fusnesau a theuluoedd yng Nghymru yn ystod y dirywiad economaidd. Fe'i lanswyd ym mhumed Uwchgynhadledd Economaidd Cymru yn Abertawe.

### **Ffiniau a Mewnfudo**

**Cardiau adnabod.** Mae'r Gweinidog yn aelod o'r Gweithgor Gweinidogion ar Gardiau Adnabod lle amlygodd y materion penodol sy'n gysylltiedig â chyflwyno cardiau adnabod yng Nghymru. Yn benodol, mae ef a'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cael trafodaethau gyda gweinidogion y Swyddfa Gartref ynghylch defnyddio'r Iaith Gymraeg ar gardiau adnabod yng Nghymru. Mae swyddogion Swyddfa Cymru hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau, Asiantaeth Ffiniau'r DU a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i sicrhau y deuir o hyd i fformat addas sy'n cynnwys y Gymraeg.

### **Darlledu a Chyfathrebu**

**Cynhwysiant Digidol.** Fel y Gweinidog dros Gynhwysiant Digidol, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cynorthwyo i hwyluso ystod eang o drafodaethau rhwng adrannau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r rheini wedi darparu'r modd i rannu syniadau ac arferion gorau ar gynlluniau sydd eisoes ar gael i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu Cynllun Gweithredu Digidol sy'n adeiladu ar y cynigion hyn ac sy'n hybu rhagor o gydweithredu rhwng pob parti.

**Grŵp Newid i Ddigidol Adrannau'r Llywodraeth** Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran chwarae rôl weithredol yn monitro cyflwyno'r Newid i Ddigidol. Mae swyddogion Swyddfa Cymru wedi helpu i sicrhau bod materion

sy'n peri pryder i Gymru ac sy'n effeithio ar Gymru wedi cael eu hystyried ac wedi cael sylw cyn i'r broses newid ddechrau yng Nghymru yn ystod hydref 2009.

**Adroddiad Prydain Ddigidol.** Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi hwyluso trafodaethau rhwng yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adroddiad Prydain Ddigidol Llywodraeth y DU. Arweiniodd y gwaith hwn at rannu arferion gorau a syniadau.

### Addysg

**Prifysgolion Cymru.** Yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd y Cyfrin Gyngor ar faterion Cymreig, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei gytundeb i'r pwerau dyfarnu graddau a addysgir a theitl newydd i Brifysgol Glyndŵr ac i'r pwerau dyfarnu graddau a addysgir a theitl newydd i Goleg Prifysgol y Drindod. Mae Swyddfa Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyngor a chymorth i Ysgrifenyddiaeth y Cyfrin Gyngor ar y newidiadau yn siarteri a statudau sefydliadau Addysg Uwch Cymru.

### Iechyd a Lles

**Cyflenwi Gwasanaethau Iechyd ar draws y Ffin.** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wedi chwarae rhan weithredol yn y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymheiriaid yn yr Adran Iechyd i gytuno ar brotocol diwygiedig, sy'n sail i'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd sydd ger y ffin ac sy'n delio â chyfrifoldebau comisiynu ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Cafwyd cytundeb mewn pryd i roi'r protocol diwygiedig ar waith o 1 Ebrill 2009. Mae'r protocol diwygiedig wedi'i anfon gan yr Adran Iechyd i'r Awdurdodau Iechyd Strategol a'r Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi anfon cyfathrebiad tebyg i Gomisiwn Iechyd Cymru ac i'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Diwygio Lles.** Cydweithiodd Swyddfa Cymru'n agos â Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod unrhyw wahaniaethau polisi yn cael eu cydnabod a bod buddiannau Cymru yn cael lle yn y papurau Gwyrdd a Gwyn ar Ddiwygio Lles.

Hefyd, bu gan Swyddfa Cymru rôl allweddol yn sicrhau bod digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal yng Nghymru fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar y Papur Gwyrdd (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008). Derbyniwyd adborth gwerthfawr yn ei sgil, a gyfrannodd yn uniongyrchol at lunio'r Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008. Yn y digwyddiad, nododd Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru nod Llywodraeth y DU o gymdeithas fwy cynhwysol, gan sicrhau cyfleoedd gwaith i bawb.

### Polisiâu ar draws Llywodraethau

Mae Swyddfa Cymru wedi cyfrannu at amrywiaeth eang o gynlluniau a chynigion polisi gyda'r bwriad o sicrhau bod materion sy'n benodol i Gymru'n cael eu hystyried a bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ran fel y bo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Papur Gwyn Cyfleoedd Newydd;
- Ymgynghoriad ar Drais yn erbyn Menywod a Merched;

- Papur Gwyrdd Mesur Hawliau a Chyfrifoldebau;
- Papur Gorchymyn Personél y Lluoedd Arfog;
- Cydweithio - Gwasanaethau Cyhoeddus o'ch Plaid;
- Ymgynghori ynghylch tlodi plant;
- Diwygio Lles;
- Agenda Llywodraethu Prydain;
- Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn ymwneud â'r Comisiwn Cynllunio Annibynnol;
- Papur Gwyn Grymuso Cymunedau;
- Yr ymgynghoriad Gofal a Chefnogaeth; a
- Strategaeth Ffiniau'r DU.

### **Ymchwiliadau Pwyllgor Materion Cymreig**

Mae swyddogion Swyddfa Cymru wedi gweithio gyda swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau eraill Llywodraeth y DU i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiadau a luniwyd gan Ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Wasanaethau Trawsffiniol. Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi bod yn gweithio ar ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Globaleiddio'r Pwyllgor.

### **Ymwybyddiaeth o Ddatganoli**

I bwysleisio ym mhellach pwysigrwydd goblygiadau datganoli a ystyriaeth materion Cymreig yn gynnar yn nhatblygiad polisi, mae Swyddfa Cymru wedi adeiladu ar ei gwaith o godi ymwybyddiaeth (gwelir paragraff 2.4) i gynnwys rhaglen allgymorth yn ymrwymo trafodaethau adrannau penodol.

### **Amcan 3 – Cynrychioli**

Cynrychioli buddiannau Cymru yn y byd ehangach drwy:

- Gymryd camau i gyfleu barn Cymru'n effeithiol a chyd-drefnu polisi'n effeithiol; a
- Hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol Cymru mewn cyd-destunau heblaw'r Senedd a'r Llywodraeth, a chyfrannu at drafodaeth gyhoeddus wybodus.

### **Cyflawni**

Gan ei fod yn agwedd allweddol ar rôl Swyddfa Cymru, mae cynrychioli buddiannau Cymru wedi parhau'n flaenoriaeth. Mae'r Swyddfa wedi parhau i gyfrannu at gyfleu barn Cymru'n effeithiol ac at gyd-drefnu polisi, ac at hyrwyddo buddiannau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol Cymru'n gyffredinol.

Mae swyddogion a gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn gysylltiedig â materion allweddol ar gyfer Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol yn fwyaf diweddar ar yr economi,

ond hefyd ar sbectrwm eang o feysydd polisi eraill y Llywodraeth:

### **Polisi Economaidd ac Ariannol**

**Uwchgynadleddau Economaidd Cymru.** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyd-drefnu'r digwyddiadau hyn i ddod â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd ynghyd â rhanddeiliaid a busnesau o Gymru ar gyfer casglu tystiolaeth a dyfeisio ymateb effeithiol i'r dirywiad economaidd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi adborth o'r uwchgynadleddau i'r Cyngor Economaidd Cenedlaethol, sy'n cael eu gadeirio gan y Brif Weinidog.

**Cyfarfodydd gyda busnesau lleol.** Mae'r Gweinidog wedi cyfarfod â phobl fusnes lleol yn Wrecsam, Llanelli, Abertawe a Sir Benfro i glywed o lygad y ffynnon am eu profiadau o'r dirywiad economaidd ac i hyrwyddo'r cymorth a'r gefnogaeth amrywiol sydd ar gael gan y Llywodraeth.

**Yr Economi: Ffocws ar Gymru.** Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Swyddfa Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Hydref i roi sylw i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i fusnesau, unigolion a theuluoedd.

### **Darlledu a Chyfathrebu**

**Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.** Mae Swyddfa Cymru wedi cael trafodaethau eang gydag Ofcom i roi sylw i'r pryderon am effeithiau posibl y newidiadau mewn Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Roedd y trafodaethau hyn yn sicrhau bod Ofcom yn derbyn adborth cynhwysfawr er mwyn llunio nifer o opsiynau i'w hystyried gan y Llywodraeth ar ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn dilyn y newid i ddigidol.

### **Amddiffyn**

**Grŵp Llywio Rhynglywodraethol ar Academi Technegol Sain Tathan a'r Parc Busnes Awyrfod.** Mae Swyddfa Cymru'n cyfrannu at y grŵp ar y cyd hwn a gadeirir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r grŵp yn delio â logisteg, cynllunio, materion cyfreithiol a chyllido rhaglen Sain Tathan. Disgwylir i'r rhaglen ddod â gwerth £11biliwn o fuddsoddiad i Dde Cymru, gan greu llawer o swyddi a chyfleoedd i'r gadwyn gyflenwi yn y rhanbarth.

### **Addysg**

**Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru.** Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cael cyfarfodydd gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Addysg Uwch Cymru. Mae wedi codi'r materion sy'n peri pryder a'r cyflawniadau mewn cyfarfodydd dilynol gydag Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Arloesi, Prifysgolion ac Ysgolion a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhelir trafodaethau rheolaidd hefyd rhwng y Gweinidog a Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae Swyddfa Cymru wedi annog rhannu gwybodaeth am yr adolygiadau addysg uwch y mae adrannau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n eu cynnal.



### Ynni a'r Amgylchedd

**Astudiaeth Ddichonoldeb ar Ynni Llanw afon Hafren.** Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn allweddol yng nghyswllt datblygu'r cynigion ar gyfer cynhyrchu pŵer drwy ddefnyddio Aber Afon Hafren, gan weithio'n agos gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill o bob rhan o'r llywodraeth i sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i fuddiannau Cymru. Cynrychiolir Swyddfa Cymru ar y canlynol:

- Pwyllgor Ad-Hoc Gweinidogion trawslywodraethol;
- Bwrdd y Prosiect ar lefel y Cyfarwyddwyr Cyffredinol;
- Bwrdd Prosiect yr Astudiaeth Ddichonoldeb;
- Grŵp Llywio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol;
- Ffrwd Gwaith Effeithiau Rhanbarthol a Thrafnidiaeth;
- Ffrwd Gwaith Cyfathrebu.

### Cyfraith a Threfn

**Y Bwrdd Plismona Cenedlaethol.** Mae'r Gweinidog yn dal yn aelod parhaol o'r Bwrdd. Mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag Awdurdodau a Heddluoedd Cymru er mwyn gallu cyfleu eu barn ar y Bwrdd. Un agwedd ar hynny oedd delio â'r ymateb i Adolygiad Flanagan o Blismona a'r Papur Gwyrdd ar Blismona er mwyn sicrhau y rhoddyd sylw i fuddiannau penodol Cymru.

**Bwrdd Cenedlaethol Lleihau Troseddu.** Gwahoddwyd y Gweinidog gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ymuno â'r Bwrdd Cenedlaethol Lleihau Troseddu ym mis Mehefin 2008 a bellach mae'n aelod parhaol, yn cynrychioli buddiannau Cymru yn y fforwm hwn.

### Amcan 4 – Llywodraethu

Sicrhau, datblygu a rheoli'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Gwerth – cynyddu effeithlonrwydd a gwerth am arian i'r eithaf;
- Pobl – buddsoddi yn ein pobl a thynnu'r gorau ohonynt;
- Cyflawni – datblygu a gwella'r modd yr ydym yn cyflawni pob un o'r amcanion.

### Cyflawni

Gan adeiladu ar y Strategaeth Adnoddau'r Gweithlu a gyflwynwyd y llynedd, mae Swyddfa Cymru wedi cynhyrchu strategaeth dysgu a datblygu i'n galluogi i arfogi ein pobl â'r sgiliau y mae'n rhaid eu cael i gyflawni'r gofynion deddfwriaethol a phob un o'n hamcanion. Mae'r holl gynlluniau datblygu personol yn cyd-fynd yn amlwg â chyflawni amcanion Swyddfa Cymru.

(Ymdrinnir yn fanwl â gwerth ym Mhennod 5).

#### 4.4 Cynnydd yn erbyn Targedau

Targed	Dangosydd	Perfformiad Ebrill 2008 - Mawrth 2009
Byddwn yn ymateb i ohebiaeth o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl ei chael.	<i>Canran yr ohebiaeth yr ymatebir iddi o fewn 15 diwrnod gwaith.</i>	90%
Byddwn yn sicrhau y telir cyfrifon yn brydlon. Os yw contract yn gymwys, gwnawn daliadau'n unol â'r amserlen berthnasol. Fel arall byddwn yn talu cyfrifon o fewn 30 diwrnod ar ôl cael anfoneb ddilys.	<i>Canran yr anfonebau a delir o fewn y cyfnod targed.</i>	94.8%
Byddwn yn delio â'r holl geisiadau am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fel arfer, prosesir ceisiadau o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu cael neu ar ôl estyniad a ganiatawyd neu byddwn yn anfon ateb dros dro yn egluro'r rhesymau dros yr oedi ac yn nodi pa bryd yr anfonir ateb llawn.	<i>Canran yr achosion dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yr atebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith.</i>	86%
Byddwn yn ymateb i'r holl geisiadau am Adolygiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith.	<i>Canran yr adolygiadau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gynhelir ac yr ymatebir iddynt, yn unol â chanllawiau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o 20 diwrnod gwaith.</i>	100% Cynhaliwyd 2 adolygiad
Rydym wedi sefydlu gweithdrefn gwyno ffurfiol, ynghylch ymddygiad Swyddfa Cymru, a byddwn yn ymchwilio i unrhyw gŵyn ac yn ymateb iddi o fewn 10 diwrnod.	<i>Canran y cwynion a drafodwyd o fewn 10 diwrnod.</i>	Ni dderbyniwyd unrhyw cŵyn. Gellir gweld trefn gwyno Swyddfa Cymru ar wefan yr adran yn: <a href="http://www.swyddfa.cymru.gov.uk">www.swyddfa.cymru.gov.uk</a>
Byddwn yn ymateb i'r holl Gwestiynau Seneddol Ysgrifenedig o fewn pum niwrnod ar ôl eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin; ac atebir yr holl Gwestiynau â Dyddiad Trafod ar y dyddiad a bennwyd.	<i>Canran y cwestiynau a drafodwyd yn unol â'r dyfarniad pum niwrnod.</i> <i>Canran y cwestiynau â dyddiad ateb a atebwyd ar y dyddiad a bennwyd.</i>	84.5% 82.5%



# Pennod 5



Trefniadaeth,  
Llywodraethu  
a Galluedd

## Pennod 5:

# Trefniadaeth, Llywodraethu a Galluedd

### Cyflwyniad

Ymdrinnir â pherfformiad Swyddfa Cymru a'r heriau y mae'n eu hwynebu yn ei busnes ar hyn o bryd mewn man arall yn yr Adroddiad hwn. Yn y Bennod hon, trafodir sut yr ydym yn trefnu ein gwaith ac yn rheoli ein gweithrediadau, a beth rydym wedi'i wneud a beth rydym yn ei wneud i wella ein perfformiad a meithrin galluedd ar gyfer y dyfodol.

### Perthynas Swyddfa Cymru gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ychydig o swyddogaethau gweithredol sydd gan Swyddfa Cymru. Gyda chyfanswm staff o 65, ni all ddarparu drosti'i hun yr holl wasanaethau canolog a chorfforaethol y mae ar Adran o Lywodraeth eu hangen ar sail broffesiynol briodol. Er ei bod yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog, ac er bod ganddi ei hunaniaeth neilltuol ei hun, mae Swyddfa Cymru'n elwa o allu defnyddio'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym yn dibynnu ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder am wasanaethau *sylweddol*, fel rhai ar gyfer talu biliau, y gyflogres, a'r seilwaith TG a chymorth wrth y bwrdd gwaith neu oddi wrtho. Rydym yn dibynnu arni hefyd am wasanaethau *proffesiynol*, fel gwasanaethau ar gyfer cyfrifyddu ariannol, caffael, a rheoli adeiladau, sy'n neilltuol o bwysig gan fod prif adeilad Swyddfa Cymru yn adeilad treftadaeth rhestredig ar Whitehall.

Rydym hefyd yn cael budd o'r cydweithio agos sydd rhyngom a Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n deillio o'n hanes, ein swyddogaethau, a'r ffaith ein bod ar hyn o bryd yn benthycu 35-40 y cant o'n staff o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn wahanol i Adrannau mwy, nid oes gan Swyddfa Cymru, yn gyffredinol, staff ei hun sy'n cyflenwi gwasanaethau ategol yn uniongyrchol; fel arfer byddant yn gweithio i sicrhau a threfnu'r ddarpariaeth gwasanaethau o le arall. Bydd y gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan Swyddfa Cymru (fel y gwaith o drafod ein gohebiaeth) yn cael eu hategu gan systemau (fel y system rheoli cofnodion electronig) a ddarperir i ni gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn achos gwasanaethau caffael a chyflenwi, byddwn fel arfer yn dibynnu ar gcontractau caffael y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Er mwyn sicrhau stiwardiaeth dda, ac yn unol â'r ffaith bod gennym hunaniaeth ar wahân, rydym yn ymdrechu i gael ein systemau rheoli ac adrodd lleol ein hunain, os yw hynny'n addas ac yn ymarferol, o fewn y cyd-destun ehangach hwn.

## 5.1 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae gennym nifer o gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ein cyfrifoldebau craidd, a'r gwasanaethau ategol angenrheidiol.

Rydym wedi adolygu a diweddarau'r holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth cyllid, gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i sicrhau y trosglwyddir Cronfa Gyfunol Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn effeithiol.

## 5.2 Cyfrifoldebau Swyddfa Cymru

Dyma'r prif gyfrifoldebau:

- delio â deddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar Gymru (yn uniongyrchol, neu drwy roi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad);
- ymateb i ddiddordeb yn y Senedd mewn Materion Cymreig;
- trosglwyddo'r grant i Gymru;
- hybu cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru
- hyrwyddo buddiannau Cymru'n gyffredinol; a
- cynrychioli buddiannau Cymru yn y Cabinet a Pwyllgorau'r Cabinet

Eleni oedd blwyddyn gyntaf lawn gweithredu'r trefniadau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer trosglwyddo pwerau deddfwriaethol newydd yn gynyddrannol i'r Cynulliad lle cafwyd cytundeb yn eu cylch. Mae strwythur newydd y Swyddfa, a sefydlwyd y llynedd, wedi cefnogi'r broses hon yn llwyddiannus. Mae hefyd wedi helpu i gefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddo gyflawni rhagor o'i gyfrifoldebau dros oruchwylio'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, y Cydbwyllgor Gweinidogion, cadeirio Pwyllgor y Cabinet ar Lywodraeth Leol a Rhanbarthau Lloegr, a chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â datganoli.

Prif waith Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru yn ystod 2008-09 fu sicrhau bod mesurau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer ymateb i'r dirywiad economaidd ac ariannol byd-eang yn cydweithio'n dda ar ran pobl Cymru. Fel y crybwyllwyd rywle arall yn yr Adroddiad hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog wedi bod yn gweithio'n frwd drwy Gyngor Economaidd Cenedlaethol y DU, trafodaethau eraill yng Nghabinet y DU, ac Uwchgynadleddau Economaidd Cymru, ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cryfhawyd eu cyfraniad gan raglen brysur o ymweliadau a thrafodaethau gyda busnesau, undebau, llywodraeth leol a llawer o bobl eraill yng Nghymru.

I ateb yr her newydd hon, mae'r Swyddfa wedi newid ei threfniadaeth ac wedi adleoli swyddogion i gyflawni'r tasgau ychwanegol.

### 5.3 Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i Swyddfa'n gyfrifol am drosglwyddo Bloc Cymru yn unig, ac nid am y defnydd ohono yng Nghymru. Mae hyn yn fater i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymorth Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer y cais am adnoddau perthnasol ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i ddiweddarau.

Cyfarfu Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru ag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gadarnhau gweithrediad y cytundeb i roi gwybod am unrhyw ganfyddiadau sy'n berthnasol i gyfrifoldebau Swyddfa Cymru.

Yn ystod 2008-09, daeth maint yr argyfwng economaidd yn amlwg, ac ym mis Hydref 2008, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Cyngor Economaidd Cenedlaethol yn cael ei greu a Chyngor Gweinidogion Rhanbarthol i ymateb i'r argyfwng hwnnw. Penodwyd yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cyngor Economaidd Cenedlaethol a'r Gweinidog i'r Cyngor Gweinidogion Rhanbarthol.

Roedd Swyddfa Cymru eisoes yn bwriadu creu tîm newydd ar gyfer polisi economaidd a chyllid, ac felly roedd yn gallu ymateb yn ddi-oddedd i ddigwyddiadau sydyn drwy sefydlu'r tîm o flaen amser. Ar y dechrau, dim ond un aelod oedd gan y tîm, yn cael ei gefnogi gan aelodau o dimau eraill yn y grŵp polisi, ond erbyn diwedd y flwyddyn, roedd ganddo dri aelod amser llawn ac un arall i ddod. Gwnaethpwyd hyn drwy ailddyrranu adnoddau o fewn y grŵp polisi cyfredol.

#### Caffael, ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd

Lle y mae Swyddfa Cymru yn defnyddio gwasanaethau a gyflenwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu dan gontract â hi, mae ymrwymadau'r Llywodraeth ar effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd yn cael eu cyflawni o fewn eu fframweithiau ehangach. Rydym wedi parhau i chwilio am ffyrdd o leihau rhagor ar ddefnydd y Swyddfa o ynni a dŵr ac rydym unwaith eto wedi gwrthbwysio allyriadau CO<sub>2</sub> o deithio drwy gwmni a oedd wedi'i argymhell gan Defra. Datblygir Cynllun Datblygu Cynaliadwy cynhwysfawr ar gyfer y Swyddfa yn ystod 2009, gan ddefnyddio arweiniad, offer ac adnoddau eraill sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac yn unol â strategaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder lle mae'n gorgyffwrdd â Swyddfa Cymru.

Yn benodol yn ystod 2008-09 fe wnaethom y canlynol:

- Defnyddio papur ysgrifennu o ffynonellau sy'n ailgylchu 80 y cant o'u deunydd;
- Ailgylchu mwy na 11 tonn o wastraff (cardbord, papur, plastig, papur wedi'i rwygo), cynnydd 10 y cant ar y flwyddyn flaenorol;
- Cael y cyfan o'n trydan o ffynonellau adnewyddadwy; a
- Rhoi'r gorau'n raddol i ddefnyddio dŵr potel yn ein hadeiladau.

## 5.4 Llywodraeth yr Oes Wybodaeth

### Gwefannau

Y llynedd ailddatblygwyd ac ailddyluniwyd ein gwefannau Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwefannau, sy'n fwy hygyrch a gwybodus erbyn hyn, yn cael oddeutu 80 trawiad y dydd.

Mae'r gwefannau i'w cael yn:

[www.walesoffice.gov.uk](http://www.walesoffice.gov.uk)

[www.swyddfa.cymru.gov.uk](http://www.swyddfa.cymru.gov.uk)

Mae ein gwefannau'n cynnig modd ymarferol ac effeithiol i ddarparu deunydd am ein cyfrifoldebau yn rhwydd i'r cyhoedd, ac ar ffurf y gellir ei chwilio'n hawdd. Rydym yn derbyn na all hyn fod yn unig ffynhonnell, oherwydd ystyriaethau o ran mynediad, ond mwy'n fwyfwy poblogaidd a chyfleus i lawer o ddefnyddwyr.

Mae gan yr holl staff fynediad i'r Rhyngrwyd ac i Fewnrwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

### Diogelu Data a Gwybodaeth

Nid yw Swyddfa Cymru'n delio â llawer o wybodaeth bersonol sensitif ond, serch hynny, er mwyn sicrhau bod y Swyddfa'n delio â data sensitif yn y ffordd briodol, rydym wedi cynnal archwiliad cynhwysfawr o'n hasedau data ac wedi asesu'r risgiau cysylltiedig.

Yn unol â'r gofynion gorfodol sydd ar bob corff cyhoeddus, rydym wedi defnyddio pecyn hyfforddiant a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i hyfforddi pob aelod o staff yn y gweithdrefnau trin data, a byddwn yn cynnal rhagor o weithgareddau i sicrhau bod y Swyddfa'n cydymffurfio'n llawn â'r safonau priodol.

## 5.5 Penodiadau Cyhoeddus

Nid oes gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyfrifoldeb personol dros wneud unrhyw benodiadau cyhoeddus. Pan fydd yn penodi ar y cyd ag eraill, mae'r Swyddfa'n dilyn gweithdrefnau, sy'n sicrhau mai dim ond yr ymgeiswyr sydd â'r cymwysterau mwyaf priodol fydd yn cael eu dewis ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Penodir ar gyfer swyddi cyhoeddus yn unol â'r canllawiau yn Arweiniad y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau i Gyrrff Cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2005.

## 5.6 Y Gymraeg

Mae Swyddfa Cymru'n dal i weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i adolygu'i Chynllun Iaith Gymraeg, ac mae'n gobeithio cwblhau ffurf derfynol y ddogfen hon yn y flwyddyn i ddod.

## 5.7 Recriwtio Staff Swyddfa Cymru

Mae staff Swyddfa Cymru yn dod un ai o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, drwy eu trosglwyddo o fannau eraill yn y Weinyddiaeth neu eu recriwtio iddi ar ôl eu penodi o'r tu allan; neu drwy eu benthyca oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru.



Mae Swyddfa Cymru wedi cynnal ei threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n gydnaws â rhai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Oherwydd hynny, gallwn recriwtio, rheoli ac arfarnu perfformiad mewn modd sy'n bodloni anghenion busnes Swyddfa Cymru, gan sicrhau yr un pryd na fydd staff o'r ddau gorff yn cael eu rhoi dan anfantais wrth ddod yma neu wrth symud ymlaen.

Mae Swyddfa Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar y Gwasanaeth Sifil 1995, wrth recriwtio ei staff. Mae pob unigolyn a benodir yn cael ei ddethol yn ôl ei deilyngdod ac ar sail cystadlu teg ac agored, ar wahân i achosion lle y caniateir eithriadau dan erthyglau 6 a 7 o'r Gorchymyn.

I'r perwyl hwn:

- Rhoddir mynediad cyfartal a rhesymol i ddarpar ymgeiswyr at wybodaeth ddigonol am y swydd a'i gofynion ac am y broses ddethol;
- Ystyrir ymgeiswyr yn gyfartal yn ôl eu teilyngdod ym mhob cam o'r broses ddethol;
- Mae'r dethol wedi'i seilio ar feini prawf perthnasol a gymhwysir yn gyson at yr holl ymgeiswyr;
- Mae'r technegau dethol wedi'u cynllunio fel eu bod yn ddibynadwy ac fel eu bod yn diogelu rhag rhagfarn;
- Cymhwysir polisiau cyfle cyfartal drwy gydol y broses recriwtio.

## 5.8 Niferoedd Staff

Blynyddoedd staff – cyfwerth ag amser llawn		2007-08 gwirioneddol	2008-09 gwirioneddol	Cynlluniau 2009-10	Cynlluniau 2010-11
Staff parhaol	Polisi	37	37	46	46
	Gweithredol	12	13	16	16
Staff achlysurol		4	5	2	2
Goramser		1	1	1	1
<b>CYFANSWM</b>		<b>54</b>	<b>56</b>	<b>65</b>	<b>65</b>

Mae'r elfen staff parhaol yn y tabl uchod wedi'i rhannu i wahaniaethu rhwng staff sy'n ymgymryd â gwaith polisi, gan gynnwys Swyddfeydd Preifat y Gweinidogion, a Chymorth Gweithredol, gan gynnwys yr holl wasanaethau corfforaethol a chyllid.

## 5.9 Polisiâu Cyfle Cyfartal Swyddfa Cymru

### Amrywiaeth

Mae oddeutu 11 y cant o staff y Swyddfa o darddiad Ethnig Lleiafrifol.

### Menywod

Mae menywod yn cael eu cynrychioli'n dda ar draws Swyddfa Cymru a menywod yw 48 y cant o'r staff. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y menywod mewn swyddi ar bob graddfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2009.

Graddfa'r swydd	Staff mewn swyddi	Y nifer ohonynt sy'n fenywod
Uwch Wasanaeth Sifil	4	0
Gradd 6	3	1
Gradd 7	7	5
SEO	10	5
HEO	13	5
EO	17	9
AO	8	5
AA	2	1

### Pobl ag anableddau

Mae gan Swyddfa Cymru ychydig o aelodau staff sydd ag anableddau. Er mwyn preifatrwydd, ni roddir manylion, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Yn unol â Strategaeth Adnoddau'r Gweithlu mewnol Swyddfa Cymru, rydym yn asesu lleoliad swyddi unigol yn ystod prosesau recriwtio. Bwriadwn symud nifer o swyddi i Gaerdydd dros y blynyddoedd i ddod.

## 5.10 Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Perfformiad Swyddfa Cymru

Mae gan Swyddfa Cymru Fwrdd Rheoli sy'n diogelu ac yn gwella enw da Swyddfa Cymru. Gwna hyn drwy ddarparu arweiniad a rheoli perfformiad yng nghyswllt cyflwyno polisiâu a darparu ar lefel weithredol. Mae'r Bwrdd yn gweithredu o fewn fframwaith amcanion busnes strategol y cytunir arnynt gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r aelodau yn gwneud penderfyniadau ar y cyd ac nid fel cynrychiolydd y meysydd busnes a arweinir ganddynt. Mae'n cyfarfod yn ffurfiol fel bwrdd corfforaethol bob rhyw ddeufis. Mae un aelod anweithredol gan y Bwrdd, David Crawley, sydd hefyd yn gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio'r Swyddfa. Ym mis Tachwedd 2008, cafodd Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Bwrdd eu hasesu a'u diweddarau ganddo, cadeirir y Bwrdd gan Gyfarwyddwr Swyddfa Cymru, gyda dau Ddirprwy Gyfarwyddwr yn sicrhau y darperir yn strategol yn erbyn amcanion.

Yn ystod 2008–09, mae'r Bwrdd Rheoli wedi gweithredu o fewn Cylch Gorchwyl sy'n cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM a gellir eu gweld ar ein gwefan: [www.walesoffice.gov.uk](http://www.walesoffice.gov.uk)

### **Y Pwyllgor Archwilio**

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod 2008–09, gan gynnwys unwaith yng Nghaerdydd. Mae trefniadaeth a busnes y Pwyllgor yn dilyn yr arweiniad a geir yn Llawlyfr Trysorlys EM ar Bwyllgorau Archwilio ac felly cynlluniwyd ei agendâu ar sail y dyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon, y rhagamcanion a'r datganiadau sicrwydd a hefyd y rhaglen archwilio mewnol. Y pwyllgor sy'n craffu ar y broses rheoli risg ar gyfer y Swyddfa ac yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ynghylch y camau priodol i'w cymryd. Mae'r Pwyllgor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli drwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, sy'n aelod anweithredol o'r Bwrdd.

Disgwylir y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'i adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor Archwilio i'r Bwrdd Rheoli ym mis Mehefin 2009.

### **Iechyd a Diogelwch**

Mae Swyddfa Cymru yn cymryd rhan mewn gwaith dan oruchwyliaeth Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ganddi ei Phwyllgor Iechyd a Diogelwch ei hun i asesu a rheoli risgiau, sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli. Er mwyn ystyried newidiadau pwysig diweddar i ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, mae'r Swyddfa wedi datblygu Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch i sicrhau ei bod yn parhau i gydymffurfio'n llawn.

### **Adeiladau Swyddfeydd**

Prif adeilad Swyddfa Cymru yw Tŷ Gwydyr, yn Whitehall. Tŷ tref Sioraidd oedd hwn yn wreiddiol, ac mae'n adeilad rhestredig. Rydym yn cymryd cyngor gan wasanaeth Rheoli Cyfleusterau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a chan yr Asiantau Rheoli a benodwyd ar gyfer yr adeilad, ac maent yn darparu adroddiadau rheolaidd i ni ar yr adeilad er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu statudol. Yn unol â chanlyniad yr adroddiadau, mae gennym raglen gynnal a chadw barhaus ar gyfer Tŷ Gwydyr, er mwyn darparu ar gyfer ei anghenion a'i statws arbennig.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi cymryd ystafelloedd ar brydles mewn adeilad ym Mae Caerdydd. Mae'r ddwy swyddfa'n bodloni gofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

# Pennod 6



Gwariant y  
Llywodraeth  
yng Nghymru

## Pennod 6:

# Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru

### 6.1 Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r trefniadau ariannol rhwng Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u nodi ym mhedwerydd argraffiad *A Statement of Funding Policy*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007 gan Drysorlys EM, sydd hefyd yn ymdrin â'r trefniadau ariannu ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r trefniadau'n dangos bod y confensiynau hirsefydlog a oedd yn llywio'r broses ariannu ar gyfer Cymru (yn ogystal â'r Alban a Gogledd Iwerddon) cyn datganoli wedi parhau i raddau helaeth.

Mae'r cyfrifoldeb dros bolisi cyllid, polisi macroeconomaidd a dyrannu gwariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn dal dan ofal Trysorlys EM. Oherwydd hynny, parheir i bennu cyllideb y Cynulliad o fewn y fframwaith ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, ar ôl pennu'r cyllidebau gwariant cyhoeddus cyffredinol, mae'r Cynulliad yn rhydd i wneud ei benderfyniadau ei hun ar wariant, o fewn y cyfanswm cyffredinol, ar raglenni y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer cyllideb y Cynulliad yn cael ei bennu fel arfer o fewn adolygiadau o wariant. Bydd Adrannau eraill fel arfer yn cysylltu newidiadau yn narpariaeth gyllidebol y gweinyddiaethau datganoledig â newidiadau yn y gwariant arfaethedig ar wasanaethau cyhoeddus tebyg. Pennir y cysylltiad fel arfer drwy fformiwla Barnett sy'n seiliedig ar boblogaeth. Bydd y Senedd yn pleidleisio dros roi'r ddarpariaeth angenrheidiol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yn gwneud taliadau i'r Cynulliad o'r arian a ddarparwyd gan y Senedd yn y symiau hynny y caiff eu pennu, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Telir am gostau Swyddfa Cymru o'r arian a ddarparwyd gan y Senedd.

### 6.2 Cyfanswm y Gwariant Cyhoeddus y gellir ei bennu yng Nghymru

Yn 2008-09 cyfanswm y gwariant cyhoeddus y gellir pennu ei fod wedi'i wario er budd Cymru oedd £25.309 biliwn, sy'n cyfateb i £8,493 y pen neu tua 10 y cant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. I gael mwy o wybodaeth, darllenwch PESA 2009.

### 6.3 Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Mae Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd rhan ym mhrosiect Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, sy'n cael ei arwain gan Drysorlys EM.

## 6.4 Cyllideb y Cynulliad

Mater i'r Cynulliad yw penderfynu sut y mae'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys eu rhannu rhwng costau rhedeg a gwariant ar raglenni. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo adnoddau i gyflwyno newidiadau a gwella'r canlyniadau wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae wedi ymrwymo i wella perfformiad economaidd Cymru'n barhaus a chau'r bwlch o ran CMC rhwng Cymru a Lloegr. Mae Swyddfa Cymru yn cefnogi'r amcanion hyn yn llwyr.

Gellir gweld cyllideb y Cynulliad ar ei wefan yn: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

## 6.5 Cyllideb 2009

Cyflwynodd y Canghellor ei ddatganiad ar y gyllideb ar 22 Ebrill 2009, gan gyhoeddi pecyn o fesurau a fyddai'n darparu cymorth yn awr – yr adeg y mae ei angen arnom fwyaf – ar gyfer swyddi, busnesau ac aelwydydd yng Nghymru wrth i'r DU baratoi am y twf economaidd a broffwydir ar gyfer diwedd y flwyddyn.

Oherwydd yr arbedion effeithlonrwydd a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad cyn y Gyllideb a'r Gyllideb, bydd yn rhaid i Gymru wneud arbedion o £216m dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan £46m yn ychwanegol a ddyrannwyd i Gymru yn y Gyllideb eleni a £14m yn ychwanegol flwyddyn nesaf. Y canlyniad net yw toriad £156m ym Mloc Cymru dros y flwyddyn hon a blwyddyn nesaf. Mater i Weinidogion y Cynulliad yw penderfynu sut y bydd bloc Cymru'n cael ei wario yng Nghymru a'r ffordd orau o sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd hyn.

## 6.6 Gwariant gan Swyddfa Cymru

Mae'r gwariant gan Swyddfa Cymru ei hun yn rhan o gyllideb Cymru. Heblaw'r grant y mae'n ei dalu i'r Cynulliad, mae gwariant yr Adran yn cynnwys:

- Ei chostau rhedeg ei hun;
- Treuliau'r Arglwydd Raglawiaid;
- Eitemau cysylltiedig heblaw arian

## 6.7 Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2005-06 a 2010-11 ers Dadansoddiadau Ystadegol o Wariant Cyhoeddus (PESA) 2008.

Mae atodiad 3 yn cysoni Terfyn Gwariant Adrannol presennol Cymru â'r llinell sylfaen o'r Adolygiad o Wariant yn 2007.





# Atodiadau



## Atodiadau

### Atodiad 1: Deddfau ac ynddynt ddarpariaethau neu oblygiadau penodol i Gymru yn Sesiwn 2007-08

Deddf	Dyddiad rhoi Cydsyniad Brenhinol	Nodiadau
<b>Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008</b>	13 Tachwedd 2008	Mae'n darparu ar gyfer diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer y system ofal er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gael gofal a chefnogaeth o ansawdd da a hybu a hyrwyddo gwelliannau yn y dull o gyflenwi gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn.
<b>Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008</b>	26 Tachwedd 2008	Mae'n creu fframwaith cyfreithiol hirdymor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a CO <sub>2</sub> y DU hyd at 2050 a thu hwnt, drwy osod cyllidebau a thargedau ar gyfer lleihau carbon. Mae'n sefydlu Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd i gynghori'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion y Cynulliad i gyflwyno cynllun masnachu ar gyfer Cymru, a swyddogaethau ar gyfer cyhoeddi canllawiau ac adrodd ar newid yn yr hinsawdd.
<b>Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008</b>	26 Tachwedd 2008	Mae'n darparu ar gyfer cynllun i ddsbarthu arian sydd mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu segur er budd y gymuned, gan ddiogelu hawl y perchnogion i hawlio eu harian yn ôl. Mae'n rhoi amryw o swyddogaethau i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y pŵer i gyhoeddi gorchmynion a chyfarwyddiadau mewn cysylltiad â dosbarthu a gwario'r arian a ddyrennir i Gymru.
<b>Deddf Addysg a Sgiliau 2008</b>	26 Tachwedd 2008	Mae'n cynnwys Pwerau Fframwaith i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu mewn cysylltiad ag arolygu ysgolion ar gyfer y grŵp oedran cyn-16 a chofrestru a rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru.

Deddf	Dyddiad rhoi Cydsyniad Brenhinol	Nodiadau
Deddf Ynni 2008	26 Tachwedd 2008	Mae'n darparu ar gyfer seilwaith nwy dan y môr, storio carbon deuocsid, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, datgomisiynu safleoedd ynni (niwclear, ynni adnewyddadwy, olew a nwy) a throsglwyddo dan y môr. Mae'n cynnwys darpariaethau i gadw swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru.
Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol	21 Gorffennaf 2008	Mae'n sefydlu'r Comisiwn Ansawdd Gofal gan gyfuno'r cyrff rheoleiddio presennol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol mewn un corff rheoleiddio. Mae'n diwygio rheoleiddio proffesiynol er mwyn ennyn mwy o hyder ymysg y cyhoedd ac ymysg gweithwyr proffesiynol a chryfhau llywodraethu clinigol fel rhan o ymateb y Llywodraeth i ymchwiliad Shipman.
Deddf Tai ac Adfywio 2008	22 Gorffennaf 2008	Mae'n hyrwyddo'r cyflenwad o dai drwy greu asiantaeth cartrefi newydd i Loegr, ac yn diwygio rheoliadau tai cymdeithasol yn Lloegr. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru yng nghyswllt tystysgrifau cynaliadwyedd i gartrefi newydd. Mae'n diwygio deddfwriaeth tai, gan wneud newidiadau i bwerau Gweinidogion Cymru.
Deddf Trafnidiaeth Leol 2008	26 Tachwedd 2008	Mae'n darparu ar gyfer hyrwyddo strategaeth y Llywodraeth ar gyfer delio â thagfeydd ar ffyrdd a gwella trafndiaeth gyhoeddus drwy sicrhau bod pwerau priodol gan awdurdodau lleol i gymryd camau'n lleol i ddiwallu anghenion lleol o ran trafndiaeth. Mae'n cynnwys Pwerau Fframwaith i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Mesurau yng nghyswllt prisio cefnffyrdd yng Nghymru (yn cynnwys yr M4) a gwario'r elw o'r taliadau hyn ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yng Nghymru.

Deddf	Dyddiad rhoi Cydsyniad Brenhinol	Nodiadau
<b>Deddf Cynllunio 2008</b>	26 Tachwedd 2008	Mae'n cyflwyno system newydd ar gyfer cynllunio seilwaith sydd o bwys cenedlaethol, ochr yn ochr â diwygiadau pellach yn y system cynllunio gwlad a thref a chyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'n cynnwys Pwerau Fframwaith i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yng nghyswllt cynlluniau a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Nghymru.
